

# Rhwydwaith Sgiliau Adeiladu Cymru 2012-2016

GWYBODAETH AM Y FARCHNAD LAFUR


Am ragor o wybodaeth am **Rwydwaith Sgiliau Adeiladu**, cysylltwch â
**Lee Bryer**
Rheolwr Gweithrediadau
Ymchwil a Datblygu
0344 994 4400
Lee.bryer@cskills.org
http://www.cskills.org/contact-us/offices.aspx


**Gwefan SgiliauAdeiladu**
http://www.cskills.org/

**Tudalen CSN ar y we**
http://www.cskills.org/supportbusiness/businessinformation/csn/index.aspx




Mae CITB-SgiliauAdeiladu, CIC a CITB-SgiliauAdeiladu Gogledd Iwerddon yn gweithio fel SgiliauAdeiladu, y Cyngor Sgiliau Sector dros Adeiladu. (Rhif Elusen Gofrestredig CITB-SgiliauAdeiladu 264289)

SgiliauAdeiladu yw'r Cyngor Sgiliau Sector ar gyfer adeiladu, ac mae'r Llywodraeth wedi gofyn iddo sicrhau bod y diwydiant mwyaf yn y DU yn meddu ar y gweithlu medrus sy'n angenrheidiol. Gan weithio gyda'r Llywodraeth, darparwyr hyfforddiant a chyflogwyr, mae'n gyfrifol am sicrhau bod y diwydiant yn cynnwys digon o newydd-ddyfodiaid cymwys a bod y gweithlu presennol yn hollol fedrus a chymwys, yn ogystal â gwella perfformiad y diwydiant a'r cwmnïau ynddo.

Mae'r deunyddiau hyn, ynghyd â'r holl hawliau eiddo deallusol ynddynt, yn eiddo i Fwrdd Hyfforddi y Diwydiant Adeiladu (SgiliauAdeiladu). Hawlfraint 2005 ("SgiliauAdeiladu") ac ni ddylid eu copïo, eu hatgynhyrchu na'u trosglwyddo i drydydd parti heb sicrhau caniatâd ysgrifenedig SgiliauAdeiladu ymlaen llaw. Lluniwyd y deunyddiau hyn gan ddefnyddio data a gwybodaeth a ddarparwyd i SgiliauAdeiladu a/neu EXPERIAN Limited ("Experian") gan drydydd partïon, ac nid oes modd i EXPERIAN na SgiliauAdeiladu ddilysu eu cywirdeb. Felly, nid yw EXPERIAN na SgiliauAdeiladu yn cynnig unrhyw warant ynghylch cywirdeb neu addasrwydd unrhyw ddiben penodol y deunyddiau hyn. Yn ogystal, nid yw'r deunyddiau hyn yn cynnig cyngor, ac ni ddylid eu defnyddio fel yr unig sail dros wneud unrhyw benderfyniad busnes, ac o'r herwydd, ni fydd EXPERIAN na SgiliauAdeiladu yn atebol dros unrhyw benderfyniadau a fydd yn cael eu gwneud ar sail hyn. Rydych yn cydnabod nad yw deunyddiau y maent yn defnyddio data empirig a/neu ddata ystadegol a/neu fodelu data a/neu dechnegau rhagamcanu er mwyn darparu data mynegol a/neu ragfynegol, yn gallu cynnig gwarant o unrhyw ganlyniad penodol.



# Cynnwys


1. Crynodeb a chanfyddiadau allweddol 04
2. Y rhagolygon ar gyfer adeiladu yng Nghymru 06
3. Rhagamcanion ynghylch cyflogaeth adeiladu yng Nghymru 12
4. Cymariaethau ar draws y DU 14
5. Esbonio CSN 16
   - 5.1 Methodoleg CSN 17
   - 5.2 Geirfa 18
   - 5.3 Nodiadau ac olion troed 19
   - 5.4 Diffiniadau: mathau ac enghreifftiau o waith adeiladu 20
   - 5.5 Grwpiau galwedigaethol 22
   - 5.6 Gwefan a manylion cyswllt CSN 25



## Tablau a Siartiau


1. Twf cyfartalog blynyddol mewn allbwn adeiladu, 2012-2016 04
2. Cymariaethau rhanbarthol, 2012-2016 05
3. Allbwn adeiladu, 1994-2010 06
4. Strwythur y diwydiant adeiladu, 2010 06
5. Strwythur economaidd 07
6. Dangosyddion economaidd 07
7. Twf mewn archebion adeiladu newydd, 1994-2010 08
8. Archebion gwaith adeiladu newydd 08
9. Twf cyfartalog blynyddol mewn allbwn adeiladu, 2012-2013 09
10. Allbwn adeiladu, 2012-2013 10
11. Twf cyfartalog blynyddol mewn allbwn adeiladu, 2012-2016 11
12. Allbwn adeiladu, 2012-2016 11
13. Cyfansymiau cyflogaeth yn ôl galwedigaeth 12
14. Gofyniad recriwtio blynyddol yn ôl galwedigaeth 13
15. Twf cyfartalog blynyddol mewn allbwn yn ôl cenedl/rhanbarth 15
16. Gofyniad recriwtio blynyddol yn ôl cenedl/rhanbarth 15

# 1. Crynodeb - Cymru

Rhagamcanir y bydd allbwn adeiladu yng Nghymru yn tyfu yn unol â chyfradd flynyddol gyfartalog o 1.3% dros y bum mlynedd tan 2016, gan gyd-fynd yn fras gyda'r cyfartaledd ar gyfer y DU, sef 1.4%. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd cyflogaeth adeiladu yng Nghymru yn tyfu ar raddfa lawer gyflymach na'r allbwn, sef 2.2% y flwyddyn ar gyfartaledd, sy'n llawer uwch na'r cyfartaledd ar gyfer y DU (0.6%). Fodd bynnag, mae cyflogaeth adeiladu yng Nghymru wedi dioddef llawer mwy nag y mae wedi dioddef yn y DU gyfan, gyda chwymp o'r uchafbwynt i'r isafbwynt o 28%, o'i gymharu gyda 10% ar gyfer y DU, felly mae'r twf mwy cadarn hwn yn tarddu o sail lawer yn is.

**Twf cyfartalog blynyddol mewn allbwn adeiladu, 2012-2016 - Cymru**




Ffynhonnell: CSN, Experian
cyf. Esbonio CSN, Adran 5.3, Nodyn 2

YYH



Rhagamcanir y bydd allbwn adeiladu yng Nghymru yn tyfu yn unol â **chyfradd flynyddol gyfartalog o 1.3%** dros y bum mlynedd tan 2016, gan gyd-fynd yn fras gyda'r cyfartaledd ar gyfer y DU, **sef 1.4%.**



**Canfyddiadau allweddol**

Er bod cyfradd gyffredinol y twf mewn allbwn adeiladu yng Nghymru yn debyg iawn i'r gyfradd ar gyfer y DU gyfan, ceir amrywiadau sylweddol ar draws rhai o'r sectorau. Mae'n ymddangos bod allbwn tai cyhoeddus wedi gwneud llawer yn well yng Nghymru nag y mae ar draws y DU yn ystod 2011. Fodd bynnag, o ystyried bod cyfanswm y cyllid sydd ar gael ar gyfer y dyfodol lawer yn is - gostyngiad o 17% rhwng 2011/12 a 2013/14 - mae'n anochel y bydd y duedd yn dangos gostyngiad dros y blynyddoedd nesaf yng Nghymru.

Mae'r rhagamcanion ynghylch tai preifat yn gymharol debyg ar draws y DU gyfan, gan bod yr un ffactorau yn effeithio ar y marchnadoedd ym mwyafrif y rhanbarthau a'r cenhedloedd datganoledig - twf economaidd, prisiau tai, hyder a gwariant gan ddefnyddwyr, ac amodau credyd. O ystyried y perfformiad economaidd cymharol wan, o leiaf yn y tymor byr, mae'r twf mewn allbwn tai preifat yn debygol o fod yn gymedrol yn unig dros y cyfnod rhagamcanu.

Er bod nifer o brosiectau trafnidiaeth bach i ganolig yn cael eu cynnal yng Nghymru ar hyn o bryd, megis y gwaith i wella ffordd A465, gwelir prinder prosiectau mawr. Efallai y bydd y sefyllfa hon yn gwella tuag at ddiwedd y cyfnod rhagamcanu wrth i'r gwaith gychwyn ar un o orsafoedd niwclear y genhedlaeth newydd, yn Wylfa ar Ynys Môn. Fodd bynnag, bydd rhan fwyaf y gweithgarwch adeiladu a fydd yn digwydd gyda'r prosiect hwn yn digwydd ar ôl y cyfnod rhagamcanu presennol.

Mae'r gostyngiadau mewn allbwn cyhoeddus, heb fod yn ymwneud gyda thai, yn debygol o fod yn gymharol gymedrol, o ystyried y ffaith bod Building Schools for the Future (BSF) yn rhaglen i Loegr, felly nid oedd yn berthnasol i Gymru.

Er y bydd cyllidebau cyfalaf ar gyfer gwaith iechyd ac addysg yng Nghymru dan bwysau, dylai rhaglenni megis Rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain helpu i leddfu'r dirywiad cyffredinol.

Yn y sectorau trwsio a chynnal a chadw (R&M), mae rhaglen Arbed wedi cynnig lefel dda o waith, gan ôl-osod mesurau microgynhyrchu a mesurau arbed ynni mewn eiddo domestig, a bydd yn parhau i wneud hynny am gryn amser.

Rhwng 2007 a 2010, gwelwyd maint y gweithlu adeiladu yng Nghymru yn lleihau gymaint â dros 38,000, yr oedd yn ostyngiad canrannol llawer yn fwy na'r hyn a welwyd ar draws y DU gyfan. Felly, yr awgrym yw bod llawer llai o lacrwydd o fewn y diwydiant yng Nghymru, ac mae hyn yn rhan o'r rheswm dros y ffaith bod yr amcanestyniadau yn nodi y bydd cyflogaeth yng Nghymru yn cynyddu mewn ffordd eithaf gref dros y cyfnod rhagamcanu, gymaint â dros 11,500 dros y bum mlynedd tan 2016.

Crefftau pren a gwaith gosod mewnol yw'r categori galwedigaethol mwyaf o hyd, gan gynnwys bron i 14% o gyfanswm y gyflogaeth adeiladu yng Nghymru yn 2010. Disgwylir i'r categori galwedigaethol hwn dyfu gymaint â 32% dros y bum mlynedd tan 2016, yn yr un modd â gweithwyr adeiladu arbenigol nec*, gyda nifer y sgaffaldwyr yn cynyddu gymaint â 37%. Mewn cyferbyniad, dim ond ychydig dros 1% y disgwylir i gyfanswm y bricwyr gynyddu yn ystod y cyfnod rhagamcanu.

Yn draddodiadol, mae gan Gymru ofyniad recriwtio blynyddol (ARR) eithaf uchel ac mae hyn yr un mor wir eleni, gyda gofyniad o 4,280 y flwyddyn ar gyfartaledd yn ystod y cyfnod rhagamcanu.

**Cymhariaeth Genedlaethol / Rhanbarthol, 2012-2016**

| | Newid canrannol cyfartalog blynyddol mewn allbwn | Twf yng nghyfanswm y cyflogaeth | Cyfanswm ARR |
|---|---|---|---|
| Gogledd Ddwyrain Lloegr | 0.5% | 4,840 | 2,170 |
| Swydd Efrog a Humber | 0.0% | -6,370 | 2,630 |
| Dwyrain Canolbarth Lloegr | 1.0% | -1,800 | 3,460 |
| Dwyrain Lloegr | 2.9% | 10,660 | 5,710 |
| Llundain Fwyaf | 2.5% | 16,560 | 1,790 |
| De Ddwyrain Lloegr | 2.2% | 28,020 | 4,520 |
| De Orllewin Lloegr | 2.2% | 9,560 | 7,220 |
| Cymru | 1.3% | 11,590 | 4,280 |
| Gorllewin Canolbarth Lloegr | -1.1% | -7,360 | 3,730 |
| Gogledd Iwerddon | 2.1% | 3,880 | 1,170 |
| Gogledd Orllewin Lloegr | -0.9% | -6,990 | 5,080 |
| Yr Alban | 1.3% | 13,520 | 4,480 |
| **DU** | **1.4%** | **76,110** | **46,240** |

Ffynhonnell: CSN, Experian
cyf. Esbonio CSN, Adran 5.3, Nodyn 2

# 2. Y rhagolygon ar gyfer adeiladu yng Nghymru


### 2.1 Allbwn adeiladu yng Nghymru - trosolwg

Yn 2010, gwelwyd gostyngiad yn allbwn y diwydiant adeiladu yng Nghymru am y drydedd blwyddyn o'r bron, wrth i'w lefel ostwng i £3.83bn yn ôl prisiau 2005, 24% yn is na'i uchafbwynt yn 2007, a'r lefel isaf er 2002.

Gwelwyd sefyllfa'r diwydiant yng Nghymru yn mynd yn groes i'w sefyllfa yn y DU yn 2010, lle y gwelwyd twf o 8%. Fodd bynnag, achos y dirywiad mewn allbwn adeiladu yng Nghymru oedd y perfformiad arbennig o wael yn y sectorau trwsio a chynnal a chadw, yn enwedig ym maes gweithgarwch heb fod yn ymwneud gyda thai; gwelwyd yr allbwn gan waith newydd yn codi 9%.

O fewn y sector gwaith newydd, gwelwyd y twf mwyaf cadarn ym maes tai, gyda'r allbwn cyhoeddus yn codi 15% a thai preifat yn codi 27%, er bod hyn yn dilyn dwy flynedd o ddirywiad mawr iawn yn achos y sector olaf. Dim ond twf cymedrol a welwyd yn y sectorau gwaith newydd arall, gan amrywio o 4% yn y sector masnachol i 8% ym maes seilwaith.

**Allbwn adeiladu, 1994-2010 - Cymru**




Ffynhonnell: ONS
cyf. Esbonio CSN, Adran 5.3, Nodyn: 1

### 2.2 Strwythur y diwydiant


Mae'r diagram, Strwythur y Diwydiant Adeiladu, 2010 - y DU yn erbyn Cymru, yn dangos dadansoddiad o'r sector adeiladu yng Nghymru o'i gymharu gyda'r sefyllfa yn y DU. I bob pwrpas, mae'r canrannau ar gyfer pob sector yn dangos pa gyfran o gyfanswm yr allbwn y mae modd ei neilltuo i bob sector.

Y prif wahaniaeth strwythurol rhwng Cymru a'r DU gyfan yn 2010 oedd bod y sector seilwaith 5% yn fwy yng Nghymru ac roedd trwsio a chynnal a chadw (R&M) heb fod yn ymwneud gyda thai, 8% yn llai. Gwelwyd cyfran y sector seilwaith yng Nghymru yn tyfu 2% rhwng 2009 a 2010, o 15% i 17%. Mewn cyferbyniad, gwelwyd cyfran y gwaith R&M, heb fod yn ymwneud gyda thai, yn gostwng o 16% i 9% yn ystod yr un cyfnod. O ystyried y ffaith bod lefel y gwaith R&M heb fod yn ymwneud gyda thai yn 2010 lawer yn is na normau hanesyddol, efallai y bydd y newid olaf yn un dros dro.

### 2.3 Trosolwg economaidd

Mae perfformiad disgwyliedig economi rhanbarthol neu genedlaethol yn ystod y cyfnod rhagamcanu (2012-2016) yn cynnig syniad o'r sectorau adeiladu lle y mae'r galw yn debygol o fod yn gryfaf.

**Strwythur y diwydiant adeiladu, 2010 - y DU yn erbyn Cymru**




Ffynhonnell: ONS, Experian

- Tai cyhoeddus
- Tai preifat
- Seilwaith
- Cyhoeddus, heb fod yn ymwneud gyda thai
- Diwydiannol
- Masnachol
- R&M yn ymwneud gyda thai
- R&M heb fod yn ymwneud gyda thai



**Strwythur economaidd - Cymru (£ biliwn, prisiau 2006)**

| Sectorau dethol | Gwir | Rhagamcan Newid canrannol blynyddol, termau real | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
| Gwasanaethau cyhoeddus | 13.6 | 0.9 | -0.2 | -0.2 | -0.2 | 0.2 | 0.4 |
| Ariannol a gwasanaethau busnes | 6.1 | -0.7 | 2.0 | 2.5 | 2.7 | 3.1 | 3.3 |
| Trafnidiaeth a chyfathrebu | 2.4 | 2.9 | 1.9 | 2.2 | 2.3 | 2.5 | 2.5 |
| Gweithgynhyrchu | 7.3 | 2.6 | 3.0 | 3.2 | 2.5 | 1.9 | 1.3 |
| Dosbarthu, gwestai ac arlwyo | 6.1 | 1.3 | 0.6 | 1.7 | 2.0 | 2.3 | 2.6 |
| **Cyfanswm y Gwerth Ychwanegol Crynswth (GVA)** | **42.3** | **0.8** | **0.8** | **1.3** | **1.4** | **1.7** | **1.7** |

Ffynhonnell: Experian
cyf. Esbonio CSN, Adran 5.3, Nodyn 3

### 2.4 Strwythur economaidd

£42.3bn oedd cyfanswm y Gwerth Ychwanegol Crynswth (GVA) yng Nghymru yn 2010 yn ôl prisiau 2006, cynnydd o 1.8% er 2009, yn unol â thwf cyfartalog yn y DU. Felly, roedd cyfran Cymru o gyfanswm GVA y DU wedi parhau i fod yn sefydlog, sef 3.6%.

Yn 2010, gwelwyd y twf cryfaf yn y sector gweithgynhyrchu yng Nghymru, gyda'r GVA yn codi dros 10%, a dilynwyd hyn gan ddosbarthu, gwestai ac arlwyo (3.4%) a thrafnidiaeth a chyfathrebu (2.8%). Mewn cyferbyniad, gwelwyd y sector ariannol a gwasanaethau busnes yn lleihau 4%, sef yr ail flwyddyn yn olynol iddo brofi lleihad.

Mae'n ddiddorol nodi bod hyn wedi arwain at wrthdroi'r newidiadau strwythurol tymor hir y maent wedi digwydd yn economi Cymru, o leiaf dros dro. Gwelwyd cyfran y sector ariannol a gwasanaethau busnes o weithgarwch economaidd Cymru yn gostwng i 14.4% yn 2010, ei lefel isaf er 2005. Mewn cyferbyniad, mae'r sector gweithgynhyrchu wedi llwyddo i atal ei leihad o ran pwysigrwydd, wrth i'w gyfran o fewn GVA godi o 15.9% yn 2009 i 17.2% yn 2010.

Gwasanaethau cyhoeddus yw'r sector mwyaf o hyd yn economi Cymru, gan fod yn gyfrifol am 32.2% o'r gweithgarwch yn 2010, hanner canran yn is na'i gyfran yn 2009. Gwelwyd ei gyfran o fewn GVA Cymru yn gostwng dan 30% yn 2006, cyn fod e'i gwelwyd yn codi yn ôl yn uwch na'r lefel hon yn 2008.

### 2.5 Dangosyddion economaidd tuag at y dyfodol

Mae amcanestyniadau yn disgwyl y bydd economi Cymru yn tyfu yn unol â chyfradd gyfartalog flynyddol o 1.4% dros y bum mlynedd tan 2016, ychydig yn is na chyfartaledd y DU sef 1.8%. Disgwylir mai'r sectorau a fydd yn sicrhau'r perfformiad cryfaf fydd y sectorau ariannol a gwasanaethau busnes (2.7%), gweithgynhyrchu (2.4%) a thrafnidiaeth a chyfathrebu (2.3%). Mae'r cyfraddau twf blynyddol hyn ychydig yn is na'r cyfartaleddau a ragwelir ar gyfer y tri sector yn y DU.

Ar hyn o bryd, mae economi'r DU a'i rhannau cyfansoddol yn cael anhawster i aros o fewn modd twf o ystyried y gwendid o ran galw domestig a diflaniad adferiad sy'n cael ei arwain gan allforio o ganlyniad i'r problemau yn rhanbarth yr ewro, y maent wedi cael cryn gyhoeddusrwydd. Gyda banciau dan bwysau cynyddol, gallai'r gweithgarwch i leddfu amodau credyd ers anterth y wasgfa gredyd yn 2008, fethu.

Amcangyfrifir bod incwm gwario go iawn cartrefi (RHDI) yng Nghymru wedi gostwng bron i 4% yn 2011. Er y bydd 2012 yn flwyddyn well yn hyn o beth, disgwylir ychydig ddirywiad pellach. Felly, bydd gwariant cartrefi yn parhau i fod dan bwysau, o leiaf yn y tymor byr. Yn y tymor canolig, dylai'r ffaith y bydd chwyddiant yn gostwng, yn ogystal â'r newidiadau i fudd-daliadau a threth, olygu y dylid dychwelyd i sefyllfa lle y gwelir twf mewn RHDI a gwariant gan ddefnyddwyr.

Rhagamcanir y bydd diweithdra yn cyrraedd ei anterth yng Nghymru yn 2012, gan ostwng yn araf ar ôl hynny. Mae amcanestyniadau yn disgwyl y bydd cyfanswm y cyflogaeth amser llawn cyfatebol (FTE) yn tyfu 4% dros y bum mlynedd tan 2016, llai na hanner y gyfradd a welwyd yn ystod y cyfnod twf diwethaf, sef 2003-2007.


Mae'r rhagolygon ynghylch cynnydd mewn prisiau tai yn parhau i fod yn aneglur. Yn ôl Cymunedau a Llywodraeth Leol, ychydig dan £151,000 oedd pris cyfartalog tŷ yng Nghymru, 2.5% yn uwch na'r flwyddyn flaenorol, ond dros 8% yn is na'u huchafbwynt yn 2007 o hyd. Gyda phrynwyr tro cyntaf yn ei chael hi'n anodd sicrhau'r blaendaliadau y mae benthycwyr yn gofyn amdanynt ar hyn o bryd o hyd, felly ni cheir llawer iawn ohonynt, amcangyfrifir bod prisiau tai wedi gostwng ychydig yn ystod 2011. Gan bod y galw yn debygol o barhau i fod yn dawelach yn y tymor canolig, dim ond twf cymedrol mewn prisiau tai a ragwelir ar gyfer y cyfnod rhwng 2012 a 2016.

**Dangosyddion economaidd - Cymru (£ biliwn, prisiau 2006 - oni bai y nodir fel arall)**

| | Gwir | Rhagamcan Newid canrannol blynyddol, termau real | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
| Incwm gwario go iawn cartrefi | 36.1 | -3.8 | -0.4 | 0.8 | 0.7 | 1.3 | 1.6 |
| Gwariant cartrefi | 36.2 | -2.3 | -0.1 | 1.9 | 2.1 | 2.4 | 2.8 |
| Poblogaeth oedran gweithio (000oedd ac fel % o'r cyfanswm) | 1768.2 | 58.5% | 58.7% | 59.4% | 60.0% | 60.4% | 60.9% |
| Prisiau tai (£) | 150953 | -1.9 | 1.6 | 2.0 | 2.4 | 2.3 | 2.4 |
| Diweithdra LFS (miliynau) | 0.12 | 0.12 | 0.13 | 0.12 | 0.12 | 0.11 | 0.10 |

Ffynhonnell: ONS, DCLG, Experian

### Twf mewn archebion adeiladu newydd, 1994-2010 - Cymru yn erbyn Prydain




Ffynhonnell: ONS
cyf. Esbonio CSN, Adran 5.3, Nodyn 4

## 2.6 Archebion adeiladu newydd - trosolwg

Ar ôl tair blynedd o ddirywiad sylweddol, gwelwyd lefel yr archebion newydd yng Nghymru yn sefydlogi yn 2010, sef £2.11bn mewn prisiau cyfredol, 1.5% yn uwch na'r flwyddyn flaenorol. Gwelwyd yr archebion newydd am dai preifat yn mwy na dyblu, er eu bod yn parhau i fod 30% yn is na'u huchafbwynt yn 2005. Gwelwyd cynnydd mwy cymedrol yn y sectorau tai cyhoeddus a masnachol, sef 32% a 12%: yn ôl eu trefn.

Mewn cyferbyniad, gwelwyd yr archebion am waith adeiladu diwydiannol newydd yn gostwng 69% i £74m yn unig yn 2010, eu lefel isaf ers i'r gyfres data adeiladu rhanbarthol presennol gychwyn ym 1985. Gwelwyd gostyngiad o 29% mewn archebion newydd yn y sector seilwaith yn 2010, er eu bod yn syrthio o'u trydydd lefel uchaf er 1985 yn 2009. Gwelwyd cyfanswm yr archebion cyhoeddus newydd, heb fod yn ymwneud gyda thai, yn cyrraedd uchafbwynt yn 2006, ac maent wedi bod yn gostwng ers hynny yn gyffredinol.

## 2.7 Archebion adeiladu newydd - y sefyllfa bresennol

Fel arfer, byddai'r ffaith bod archebion newydd wedi sefydlogi yn 2010 yn golygu y byddai adferiad yn cychwyn ac y byddai eu lefel yn cynyddu yn 2011. Fodd bynnag, dim ond £766m oedd gwerth archebion newydd yn ystod hanner gyntaf 2011, 25% yn is na'r sefyllfa a welwyd yn ystod yr un cyfnod yn 2010, a 30% yn is na'u lefel yn ystod yr hanner blwyddyn cyn hynny. Roedd yr all-dro yn ystod ail chwarter y flwyddyn, sef £237m, yn cyfateb â'r all-dro gwannaf ers pedwerydd chwarter 1987.

Roedd lefelau archebion newydd yn is yn gyffredinol, ond gwelwyd y gostyngiadau mwyaf yn y sector tai preifat, y sector diwydiannol a'r sector masnachol. Yn ystod hanner gyntaf 2011, £142m yn unig oedd gwerth archebion newydd ar gyfer tai preifat, 32% yn is na'r lefel yn ystod yr un cyfnod yn 2010 a 57% yn is na'r all-dro yn ystod yr hanner blwyddyn cyn hynny. Mae'n peri ychydig syndod i weld mai'r sector lleiaf dirwasgedig o ran archebion newydd yn ystod hanner cyntaf 2011 oedd yr un cyhoeddus, heb fod yn ymwneud gyda thai, gyda'r lefelau i lawr 4% yn unig o'u cymharu gyda'r hanner blwyddyn blaenorol, a 7% yn uwch o'igymharu gyda'r un cyfnod yn 2010.

### Archebion gwaith adeiladu newydd - Cymru (£ miliwn, prisiau cyfredol)

| | Gwir | Newid canrannol blynyddol | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2010 | 2006 | 2007 | 2008 | 2009 | 2010 |
| Tai cyhoeddus | 180 | -0.4 | 61.8 | -15.1 | 54.0 | 32.3 |
| Tai preifat | 537 | -3.3 | -9.3 | -61.4 | -8.2 | 125.6 |
| Seilwaith | 305 | -45.9 | -39.6 | 57.3 | 11.5 | -28.9 |
| Cyhoeddus, heb fod ymwneud gyda thai | 483 | 53.9 | -16.0 | 14.8 | -18.2 | -14.7 |
| Diwydiannol | 74 | -34.6 | 67.1 | -48.1 | 48.2 | -68.8 |
| Masnachol | 527 | 62.8 | -23.9 | -33.5 | -30.1 | 12.1 |
| **Cyfanswm y gwaith newydd** | **2,107** | **9.5** | **-14.5** | **-23.3** | **-8.0** | **1.5** |

Ffynhonnell: ONS
cyf. Esbonio CSN, Adran 5.3, Nodyn 4



## 2.8 Allbwn adeiladu - rhagolygon tymor byr (2012-13)

Cyhoeddir ystadegau allbwn rhanbarthol y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) yn ôl prisiau cyfredol, felly maent yn cynnwys unrhyw effaith chwyddiannol. Pan ysgrifenwyd hyn dim ond ystadegau allbwn adeiladu ONS ar gyfer chwarter cyntaf 2011 oedd ar gael.

Roedd cyfanswm yr allbwn adeiladu yng Nghymru yn ystod chwe mis cyntaf 2011 yn werth £2.26bn yn ôl prisiau cyfredol. Roedd hyn yn cynrychioli cynnydd o 5% ers y chwe mis blaenorol a chynnydd o 15% ers yr un cyfnod yn 2010. Gwelwyd R&M yn perfformio'n well na gwaith newydd yn ystod hanner gyntaf y flwyddyn, gyda'r cyntaf yn codi 17% o'i gymharu gyda'r hanner blwyddyn blaenorol, a dim ond cynnydd o 1% ar gyfer yr olaf. Y sectorau tai a seilwaith oedd y rhai cryfaf yn y sectorau gwaith newydd.

Amcangyfrifir bod y diwydiant adeiladu yng Nghymru wedi perfformio'n gymharol dda yn ystod 2011, gyda chynnydd o oddeutu 6% o ran yr allbwn mewn termau real. Fodd bynnag, mae bron i hanner yr holl dwf hwn yn cynnwys adferiad mewn gweithgarwch R&M yn 2011, yn dilyn gostyngiad sylweddol yn 2010. Mae maint cyffredinol y farchnad adeiladu yng Nghymru yn parhau i fod dros 19% yn llai na'i uchafbwynt yn 2007, er gwaethaf y gwelliant hwn.

Mae'r data ynghylch archebion ar gyfer hanner gyntaf 2011 yn awgrymu na fydd y cynnydd a welwyd yn 2011 yn para'n hir. Rhagwelir y bydd allbwn yn gostwng 4% yn ystod 2012, gydag adferiad cymedrol yn 2013, a fydd yn rhoi cyfradd flynyddol o -1.6% o ran y twf cyfartalog dros y ddwy flynedd.

Mae'r proffil cyllid cyfalaf ar gyfer tai cymdeithasol a bennwyd gan Lywodraeth Cymru yn dangos gostyngiad o 12% yn 2012/13 o'i gymharu gyda 2011/12, a mwy fyth o ostyngiad, o 21% i £48.1m, yn 2013/14. Mae'n anochel y bydd hyn yn arwain at weithgarwch adeiladu tai cymdeithasol yn lleihau yn y tymor byr.


Mewn cyferbyniad, rhagwelir twf cymedrol ar gyfer y sector tai preifat. Mae twf da yn ystod 2010 a 2011 wedi dadwneud rhywfaint o'r difrod a wnaethpwyd i'r sector yn ystod dirwasgiad 2008/09, er bod y lefelau allbwn yn parhau i fod lawer yn is na'r uchafbwynt blaenorol. Mae'r amgylchedd economaidd gwael a'r ffaith bod yr amodau credyd yn dynn o hyd, yn debygol o gyfyngu twf pellach i lefelau cymedrol yn y tymor byr, o ystyried y ffaith bod y galw yn parhau i fod yn isel.

Disgwylir mai'r sector a fydd yn tyfu gyflymaf yn y tymor byr fydd y sector adeiladu diwydiannol. Fodd bynnag, mae hyn yn bennaf o ganlyniad i effaith 'adfer' o lefelau isel iawn. Hyd yn oed gyda chyfradd dwf flynyddol gyfartalog o 9.4% yn ôl yr amcanestyniadau ar gyfer 2012 a 2013, bydd yr all-dro yn yr ail flwyddyn, sef £169m yn ôl prisiau 2005, lawer yn is na'r cyfartaledd 20 mlynedd (1991-2010), sef £291m.

Ar ben arall y raddfa, rhagwelir y bydd allbwn cyhoeddus, heb fod yn ymwneud gyda thai, yn gostwng gymaint â chyfradd gyfartalog flynyddol o 13.5% yn 2012 a 2013. Disgwylir i'r gyllideb gyfalaf ar gyfer y sectorau iechyd ac addysg ostwng gymaint ag 17% rhwng 2011/12 a 2013/14.

Mae'r twf cadarn a welwyd yn y sectorau R&M yn 2011 yn annhebygol o ddigwydd eto, o ystyried y ffaith bod hyn yn cydadfer y colledion y gwelwyd y sector yn eu dioddef yn 2010 i raddau helaeth. Bellach, mae Cam 1 rhaglen Arbed, a gynlluniwyd i wella gallu y stoc tai yng Nghymru i arbed ynni, wedi cael ei gwblhau. Gwnaethpwyd buddsoddiad o dros £30m, yr oedd hanner ohono yn dod o'r pwrs cyhoeddus a hanner o'r sector preifat, a gwnaethpwyd gwelliannau mewn dros 6,000 o gartrefi, 79% yn y sector tai cymdeithasol ac 21% yn y sector preifat.

### Twf cyfartalog blynyddol mewn allbwn adeiladu, 2012-2013 - Cymru




Ffynhonnell: Experian
cyf. Esbonio CSN, Adran 5.3, Nodiadau 1 a 2

**Allbwn adeiladu - Cymru (£ miliwn, prisiau 2005)**

| | Gwir | Newid canrannol blynyddol rhagamcanol | | | Cyfartaledd blynyddol |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2012-13 |
| Tai cyhoeddus | 170 | 21% | -20% | -26% | -23.0% |
| Tai preifat | 560 | 13% | 2% | 6% | 4.1% |
| Seilwaith | 642 | 2% | -13% | 2% | -5.5% |
| Cyhoeddus, heb fod yn ymwneud gyda thai | 580 | -10% | -16% | -11% | -13.5% |
| Diwydiannol | 141 | 0% | 9% | 10% | 9.4% |
| Masnachol | 847 | -5% | 0% | 8% | 3.8% |
| **Gwaith newydd** | **2,940** | **1%** | **-6%** | **2%** | **-2.4%** |
| R&M tai | 551 | 22% | 5% | -4% | 0.5% |
| R&M heb fod yn ymwneud gyda thai | 342 | 26% | 0% | 0% | 0.1% |
| **Cyfanswm R&M** | **893** | **24%** | **3%** | **-2%** | **0.4%** |
| **Cyfanswm y gwaith** | **3,833** | **6%** | **-4%** | **1%** | **-1.6%** |

Ffynhonnell: Experian
cyf. Esbonio CSN, Adran 5.3, Nodiadau 1 a 2

### 2.9 Allbwn adeiladu - rhagamcanion tymor hir (2012-2016)

Rhagamcanir y bydd allbwn adeiladu yng Nghymru yn tyfu yn unol â chyfradd flynyddol gyfartalog o 1.3% dros y bum mlynedd tan 2016, cyfradd dwf sy'n debyg i'r hyn a ragwelir ar gyfer y DU gyfan (1.4%). Disgwylir i waith newydd sicrhau perfformiad ychydig yn well nag R&M (1.3% o'i gymharu gydag 1.1%), ond mae'r gwahaniaeth yn fach iawn. Erbyn 2016, rhagwelir y bydd allbwn adeiladu yng Nghymru yn cyrraedd £4.33bn yn ôl prisiau 2005, 14% yn is na'i uchafbwynt yn 2007 o hyd.

Disgwylir i'r sectorau tai newydd symud mewn gwahanol gyfeiriadau, gydag allbwn tai cyhoeddus yn gostwng, yn enwedig yn ystod rhan gyntaf y cyfnod rhagamcanu, a gweithgarwch adeiladu tai preifat yn cynyddu, er y bydd hyn ar raddfa cymharol gymedrol. Bydd y sector tai cyhoeddus yn cael ei effeithio gan doriadau mewn gwariant cyhoeddus yn ystod rhan fwyaf y cyfnod rhagamcanu, er y gwelir rhan fwyaf y dirywiad yn ystod y blynyddoedd cynnar. Erbyn 2016, bydd allbwn tai cyhoeddus wedi gostwng i oddeutu £113m yn ôl prisiau 2005 ar sail y rhagamcanion hyn, ac nid yw hyn lawer yn fwy na hanner yr uchafbwynt yn 2011 sef oddeutu £205m, ond mae'n parhau i fod lawer yn uwch na'r cyfartaledd 20 mlynedd (1991-2010) o hyd, sef £84m.

Bydd y sector tai preifat yn parhau i adfer tan 2016, er bod y twf yn debygol o fod yn gymedrol yn unig o ystyried twf economaidd sy'n is na'r tueddiadau ac amodau credyd y maent yn annhebygol o ddychwelyd i'r lefelau a welwyd cyn y dirwasgiad. O bell ffordd, y prosiect mwyaf ar y gweill a fydd yn cynnig swm mawr o waith adeiladu preswyl yw ailddatblygiad Glannau'r Barri, a fydd yn costio £230m, ac y cymeradwywyd y cynlluniau ar ei gyfer gan Gyngor Bro Morgannwg ym mis Gorffennaf 2011. Yn ogystal â chyfleusterau manwerthu, hamdden, iechyd ac addysg, disgwylir y bydd y cynllun yn darparu hyd at 2,000 o gartrefi newydd, ar ffurf cymysgedd o gartrefi preifat a fforddiadwy, dros y deng mlynedd nesaf. Disgwylir i'r gwaith datblygu gychwyn yn gynnar yn 2012, ac y bydd cam cyntaf y datblygiad yn cael ei gwblhau erbyn diwedd 2013. Mewn marchnad dai sy'n cynnig 5,000-6,000 o unedau newydd y flwyddyn yn unig ar hyn o bryd, bydd y prosiect hwn yn cael cryn effaith ar y sector ar ei ben ei hun.

Dim ond ychydig iawn o dwf a ragamcanir ar gyfer y sector seilwaith, sef dim ond 0.5% y flwyddyn ar gyfartaledd, er bod y perfformiad gwan hwn o ganlyniad i ostyngiadau rhagamcanol mewn gweithgarwch yn ystod 2012 yn bennaf. Y prosiect ffordd mwyaf yng Nghymru yw'r un er mwyn gwella ffordd A465, a fydd yn uwchraddio tua 40 cilomedr o'r ffordd rhwng Y Fenni a Hirwaun erbyn 2020. Cwblhawyd dwy ran o'r cynllun hwn yn barod a dyfarnwyd contract ar gyfer trydydd rhan, y darn rhwng Brynmawr a Thredegar a fydd yn costio £140m, a bydd y gwaith hwn yn cychwyn flwyddyn nesaf.


Yn ddiweddar, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai gwerth £90m o gronfeydd pellach ar gael er mwyn buddsoddi mewn seilwaith yn ei ystyr ehangaf, gan gynnwys bron i £12m ar gyfer trafnidiaeth, £17m ar gyfer iechyd a £32m ar gyfer addysg.

Mae'r £32m ychwanegol ar gyfer addysg yn rhan o'r rhaglen fuddsoddi cyfalaf £1.4bn fel rhan o raglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru. Bydd hwn yn datblygu'r buddsoddiad a wnaethpwyd eisoes dan Raglen Arian Pontio, a bwriedir i hwn gychwyn yn 2014/15. Rhaglenni fel y rhain a chefnogaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer gwariant cyfalaf ym maes iechyd ac addysg o fewn ei derfynau gwariant adrannol (DEL) cyfalaf cyffredinol sy'n arwain at ostyngiad llai mewn allbwn heb fod yn ymwneud gyda thai yng Nghymru na'r hyn a welir ar draws y DU gyfan (gostyngiad cyfartalog blynyddol o 3% ar gyfartaledd yng Nghymru, o'i gymharu gyda 9.1% ar gyfer y DU).

O blith y sectorau R&M llafurddwys, rhagwelir y bydd yr un sy'n ymwneud gyda thai yn gwneud yn well na'r un nad yw'n ymwneud gyda thai. Bellach, mae Cam 2 rhaglen Arbed wedi cychwyn, a bydd yn ceisio gwella nifer tebyg o eiddo ag y gwellwyd yng ngham 1 (tua 6,000), er y bydd yn cael ei wasgaru dros amserlen hirach sef tair blynedd. Bydd cyllid ar gyfer cam 2 yn cael ei ddarparu gan Gronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd a Llywodraeth Cymru.



**Twf cyfartalog blynyddol mewn allbwn adeiladu, 2012-2016 - Cymru**




Ffynhonnell: CSN, Experian
cyf. Esbonio CSN, Adran 5.3, Nodyn 2

**Allbwn adeiladu - Cymru (£ miliwn, prisiau 2005)**

| | Amcangyfrif | Newid canrannol blynyddol rhagamcanol | | | | | Cyfartaledd blynyddol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2012-16 |
| Tai cyhoeddus | 205 | -20% | -26% | -5% | 1% | -3% | -11.2% |
| Tai preifat | 635 | 2% | 6% | 5% | 4% | 2% | 3.8% |
| Seilwaith | 654 | -13% | 2% | 3% | 3% | 9% | 0.5% |
| Cyhoeddus, heb fod yn ymwneud gyda thai | 520 | -16% | -11% | -3% | 8% | 9% | -3.0% |
| Diwydiannol | 141 | 9% | 10% | 4% | 5% | 2% | 6.0% |
| Masnachol | 808 | 0% | 8% | 5% | 4% | 3% | 3.9% |
| **Gwaith newydd** | **2,964** | **-6%** | **2%** | **3%** | **4%** | **4%** | **1.3%** |
| R&M tai | 673 | 5% | -4% | 2% | 3% | 1% | 1.4% |
| R&M heb fod yn ymwneud gyda thai | 431 | 0% | 0% | 1% | 1% | 1% | 0.6% |
| **R&M** | **1,104** | **3%** | **-2%** | **2%** | **2%** | **1%** | **1.1%** |
| **Cyfanswm gwaith** | **4,068** | **-4%** | **1%** | **3%** | **4%** | **3%** | **1.3%** |

Ffynhonnell: CSN, Experian
cyf. Esbonio CSN, Adran 5.3, Nodiadau 2

### 2.10 Ar ôl 2016

Mae Cymru a'r Alban yn parhau i fod ar y blaen wrth roi sylw i anghenion ôl-osod yr amgylchedd adeiledig domestig. Y bwriad yw y bydd rhaglen Arbed yn parhau tan o leiaf 2020, gyda hyd at £1bn yn cael ei fuddsoddi o ffynonellau amrywiol, gan gynnwys y Fargen Werdd, wrth leihau gollyngiadau carbon eiddo domestig.

O ran yr ochr sy'n ymwneud gyda chyflenwi ynni, y prosiect mwyaf ar y gweill yw'r orsaf bŵer niwclear newydd yn Wylfa, Ynys Môn o hyd. Mae gwaith ymchwil a gynhaliwyd gan Experian a SgiliauAdeiladu yn ddiweddar yn awgrymu y gallai'r gwaith ar y prosiect hwn gychwyn mor gynnar â 2015, gan bara tan 2020 ac am sawl blynedd wedi hynny, ac y bydd yr elfen adeiladu yn werth tua £3.75bn.

Mae Rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif yn rhaglen arall a ddylai gychwyn yn ystod y cyfnod rhagamcanu presennol, ond a ddylai bara am sawl blynedd ar ôl hynny. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i awdurdodau lleol gynllunio prosiectau nawr, gyda'r nod o fanteisio ar hyd at £700m o gyllid cyfalaf gan y Llywodraeth, gyda gweddill yr £1.4bn yn dod o ffynonellau eraill. Yna, bydd modd dwyn gwaith ymlaen pan fydd yr adnoddau ar gael. Disgwylir i'r rhaglen bara o leiaf saith mlynedd, gan gychwyn yn 2014/15.

# 3. Rhagamcanion ynghylch cyflogaeth adeiladu yng Nghymru

### 3.1 Rhagamcanion ynghylch cyfanswm cyflogaeth adeiladu fesul galwedigaeth

Mae'r tabl yn cyflwyno gwir ffigurau cyflogaeth adeiladu (SICs 41-43, 71.1, a 74.9) yng Nghymru ar gyfer 2010, cyfanswm y gyflogaeth a ragamcanir mewn 26 galwedigaeth ac yn y diwydiant cyfan rhwng 2012 a 2016. Mae Adran 5 Esbonio CSN yn cynnig dadansoddiad llawn o'r grwpiau galwedigaethol.

Rhagamcanir y bydd cyflogaeth adeiladu yng Nghymru yn cyrraedd oddeutu 111,300 yn 2016, 12% yn uwch na'i lefel amcangyfrifedig yn 2011. Mae hyn yn cynrychioli cyfradd dwf gyfartalog flynyddol o 2.2% mewn cyflogaeth, sy'n llawer uwch na'r cyfartaledd ar gyfer y DU, sef 0.6%. Rhan o'r gwahaniaeth hwn yw'r ffaith y bydd cyflogaeth adeiladu yng Nghymru yn adfer o sail is na'r sefyllfa yn y DU. 28% oedd y gostyngiad o'r uchafbwynt i'r isafbwynt yng Nghymru, o'i gymharu gyda 10% yn unig yn y DU. Yn ogystal, bydd y twf da mewn allbwn yn 2011 yng Nghymru, perfformiad llawer yn well na'r hyn a welwyd ar draws y DU gyfan, yn cyfrannu at gyflogaeth yn 2012, gyda'i effaith ymlusgol arferol.

Rhagwelir y bydd y cynnydd absoliwt mwyaf mewn cyflogaeth yn digwydd yn y crefftau pren a phersonél gosod mewnol (4,360) ac ymhlith staff adeiladu proffesiynol a thechnegol eraill (1,210). Nid yw'r twf absoliwt mawr ar gyfer y categori crefftau pren a gosod mewnol yn peri syndod mewn gwirionedd, gan mai'r cydgasgliad galwedigaethol hwn yw'r un mwyaf yng Nghymru o bell ffordd, gan fod yn gyfrifol am bron i 14% o'r gyflogaeth adeiladu yn 2010. Mewn termau cymharol, mae'r twf cryfaf o ran y galw yn debygol o fod am weithwyr adeiladu arbennig nec* a sgaffaldwyr, gyda'r cyntaf yn cynyddu gymaint â 32% o'i sail yn 2011, a'r olaf gymaint â 37% erbyn 2016.

Dros y bum mlynedd tan 2016, mae'n ddiddorol nodi main cyfraddau twf cymedrol mewn cyflogaeth a welir ar gyfer rhai o'r crefftau adeiladu mwy 'traddodiadol' megis bricwyr, gan ddynodi newidiadau parhaus yn y prosesau a ddefnyddir yn y diwydiant.

**Cyfansymiau cyflogaeth yn ôl galwedigaeth - Cymru**

| | Gwir | Rhagamcan | |
|---|---|---|---|
| | 2010 | 2012 | 2016 |
| Rheolwyr uwch, gweithredol a phrosesau busnes | 2,400 | 2,220 | 2,170 |
| Rheolwyr adeiladu | 6,430 | 6,080 | 7,020 |
| Staff proffesiynol, technegol, TG a staff swyddfa eraill, nad ydynt yn staff adeiladu | 10,100 | 11,470 | 10,890 |
| Crefftau pren a gwaith gosod mewnol | 13,080 | 14,900 | 17,900 |
| Bricwyr | 4,640 | 4,480 | 4,850 |
| Arbenigwyr amlen adeilad | 3,870 | 4,400 | 4,390 |
| Peintwyr a phapurwyr | 3,610 | 4,070 | 4,300 |
| Plastrwyr a gosodwyr paneli mewnol | 2,620 | 2,970 | 3,440 |
| Towyr | 630 | 600 | 670 |
| Llorwyr | 1,370 | 1,540 | 1,510 |
| Gwydrwyr | 1,610 | 1,580 | 1,530 |
| Gweithwyr adeiladu arbenigol nec* | 2,100 | 2,390 | 2,860 |
| Sgaffaldwyr | 1,800 | 2,040 | 2,540 |
| Gweithwyr cyfarpar | 2,090 | 2,020 | 1,720 |
| Gosodwyr/mecanyddion cyfarpar | 950 | 850 | 900 |
| Adeiladwyr dur/strwythurol | 1,800 | 1,730 | 2,010 |
| Llafurwyr nec* | 5,360 | 5,180 | 5,860 |
| Crefftau trydanol a gosod | 7,500 | 8,540 | 8,290 |
| Plymio a chrefftau HVAC | 7,160 | 7,080 | 7,870 |
| Logisteg | 2,550 | 2,460 | 2,740 |
| Gweithwyr peirianneg sifil nec* | 3,750 | 4,270 | 3,870 |
| Gweithwyr nad ydynt yn weithwyr adeiladu | 1,000 | 1,130 | 1,150 |
| Peirianwyr sifil | 1,250 | 1,420 | 1,430 |
| Staff technegol a gweithwyr adeiladu proffesiynol eraill | 4,810 | 5,240 | 6,110 |
| Penseiri | 530 | 600 | 600 |
| Syrfewyr | 3,800 | 4,250 | 4,700 |
| **Cyfanswm (SIC 41-43)** | **86,420** | **92,000** | **98,480** |
| **Cyfanswm (SIC 41-43, 71.1, 74.9)** | **96,810** | **103,510** | **111,320** |

Ffynhonnell: ONS, CSN, Experian
cyf. Esbonio CSN, Adran 5.3, Nodiadau 5 a 6
NEC* - Heb eu dosbarthu mewn man arall



### 3.2 Gofynion recriwtio blynyddol (ARR) yn ôl galwedigaeth

Mae'r ARR yn ofyniad gros sy'n ystyried llif y gweithlu i mewn ac allan o faes adeiladu, o ganlyniad i ffactorau megis symudiadau rhwng diwydiannau, mudo, salwch ac ymddeol.

Fodd bynnag, nid yw'r llif hwn yn cynnwys symudiadau i'r diwydiant o hyfforddiant, er bod data cadarn ynghylch y ddarpariaeth hyfforddiant yn cael ei ddatblygu gan SgiliauAdeiladu. Felly, mae'r gofyniad recriwtio blynyddol yn cynnig syniad am nifer y cyflogeion newydd y bydd angen iddynt gael eu recriwtio i adeiladu bob blwyddyn er mwyn gwireddu'r allbwn a ragamcanir.

Dangosir yr ARR ar gyfer y 26 galwedigaeth o fewn y diwydiant adeiladu yng Nghymru yn y tabl. Mae'r ffigwr o 4,280 yn mynegi'r gofynion cyfartalog blynyddol ar gyfer y diwydiant, ar sail y rhagamcanion ynghylch allbwn ar gyfer y rhanbarth. Mae hyn yn ystyried 'corddiad', h.y. y llif i mewn ac allan o'r diwydiant, heb gynnwys llif hyfforddiant.

Mae'r ARR ar gyfer Cymru yn cyfateb â 4.1% o'r gyflogaeth sylfaenol rhagamcanol ar gyfer 2012, y mae lawer yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer y DU, sef 1.9%. Mae'r gyfradd ARR uchel hon yn rhannol o ganlyniad i'r galw cymharol gadarn a ddisgwylir yng Nghymru o ran cyflogaeth, a'r ffaith ei bod yn dioddef all-lif net uchel i ddiwydiannau eraill ac i rannau eraill o'r DU, yn enwedig i ranbarthau De Orllewin a Gogledd Orllewin Lloegr.

Ar lefel absoliwt, gwelir mai'r gofynion mwyaf ar gyfer galwedigaethau adeiladu penodol yw am syrfewyr (540) a staff technegol ac adeiladu proffesiynol eraill (530), ond ar sail gymharol, mae'n debygol y gwelir y galw mwyaf am benseiri a pheirianwyr sifil (23% ac 20% o'r gyflogaeth sylfaenol yn 2012). Goblygiad y ffigurau hyn yw y gallai Cymru ddioddef diffyg gweithwyr adeiladu proffesiynol dros y bum mlynedd nesaf, oni bai bod sylw yn cael ei roi i'r gofynion gormodol hyn.

Sylwer bod yr holl ARRs a gyflwynir yn yr adran hon yn ofynion cyflogaeth, ac nad ydynt o reidrwydd yn ofynion hyfforddiant. Mae hyn oherwydd bod rhai newydd-ddyfodiaid i'r diwydiant adeiladu, megis gweithwyr mudol medrus neu'r rhai o ddiwydiannau eraill lle y defnyddir tasgau tebyg yn barod, yn gallu gweithio yn y diwydiant heb yr angen iddynt gael ail-hyfforddiant sylweddol.

Mae gweithwyr nad ydynt yn weithwyr adeiladu yn grŵp galwedigaethol amrywiol, gan gynnwys yr holl weithgareddau dan ymbarél SICs 41-43, 71.1, a 74.9, nad oes modd eu dosbarthu mewn man arall, megis glanhawyr, galwedigaethau diogelwch elfennol nec ac archwilwyr a swyddogion profi cyson. Mae'r sgiliau y bydd angen meddu arnynt yn y galwedigaethau hyn yn drosglwyddadwy iawn i ddiwydiannau eraill ac mae rhagweld symud o'r fath yn gam peryglus o ystyried y diffyg data cefnogol cadarn. Felly, ni chyhoeddir yr ARR ar gyfer gweithwyr nad ydynt yn weithwyr adeiladu.

Yn olaf, ar gyfer galwedigaethau penodol, ni fydd gofyniad sylweddol dros y cyfnod rhagamcanu, yn rhannol o ganlyniad i'r ffaith bod y dirwasgiad yn creu 'cronfa' o lafur dros ben.

**Gofyniad recriwtio blynyddol yn ôl galwedigaeth - Cymru**

| | 2012-2016 |
|---|---|
| Rheolwyr uwch, gweithredol a phrosesau busnes | - |
| Rheolwyr adeiladu | - |
| Staff proffesiynol, technegol, TG a staff swyddfa eraill, nad ydynt yn staff adeiladu | 550 |
| Crefftau pren a gwaith gosod mewnol | 470 |
| Bricwyr | 380 |
| Arbenigwyr amlen adeilad | <50 |
| Peintwyr a phapurwyr | 50 |
| Plastrwyr a gosodwyr paneli mewnol | - |
| Towyr | - |
| Llorwyr | - |
| Gwydrwyr | 70 |
| Gweithwyr adeiladu arbenigol nec* | 220 |
| Sgaffaldwyr | 50 |
| Gweithwyr cyfarpar | 400 |
| Gosodwyr/mecanyddion cyfarpar | <50 |
| Adeiladwyr dur/strwythurol | - |
| Llafurwyr nec* | 420 |
| Crefftau trydanol a gosod | - |
| Plymio a chrefftau HVAC | - |
| Logisteg | 170 |
| Gweithwyr peirianneg sifil nec* | - |
| Gweithwyr nad ydynt yn weithwyr adeiladu | - |
| Peirianwyr sifil | 250 |
| Staff technegol a gweithwyr adeiladu proffesiynol eraill | 530 |
| Penseiri | 120 |
| Syrfewyr | 540 |
| **Cyfanswm (SIC 41-43)** | **2,840** |
| **Cyfanswm (SIC 41-43, 71.1, 74.9)** | **4,280** |

Ffynhonnell: CSN, Experian
cyf. Esbonio CSN, Adran 5.3, Nodiadau 5 a 6
NEC* - Heb eu dosbarthu mewn man arall

# 4. Cymariaethau ar draws y DU

Gogledd Orllewin Lloegr (-0.9%), ynghyd â Gorllewin Canolbarth Lloegr (-1.1%), yw'r unig ranbarthau lle y mae amcanestyniadau yn nodi y bydd cyfradd eu twf blynyddol cyfartalog yn gostwng dros y bum mlynedd nesaf. Ar gyfer y DU, y gyfradd dwf flynyddol yw 1.4%. Disgwylir mai'r rhanbarth a fydd yn sicrhau'r perfformiad gorau fydd Dwyrain Lloegr, gyda chyfradd o 2.9%.

Dros y cyfnod rhagamcanu, mae'n ymddangos ein bod yn gweld rhaniad rhwng y gogledd a'r de yn dod i'r amlwg, gydag ardal y de ddwyrain (De Ddwyrain Lloegr, Llundain Fwyaf a Dwyrain Lloegr) yn sicrhau'r perfformiad gorau, a rhanbarthau gogledd Lloegr yn sicrhau'r perfformiad gwaethaf. Gwelir y cenhedloedd datganoledig rhwng y ddau begwn hwn, ac er bod eu cyfyngiadau gwariant cyffredinol yn cael eu pennu gan San Steffan, mae ganddynt fwy o reolaeth na rhanbarthau Lloegr dros yr hyn a fydd yn cael ei wario, trwy eu gweinyddiaethau datganoledig. Eisoes, mae'r gweinyddiaethau datganoledig yn yr Alban ac yng Ngogledd Iwerddon wedi ailgyfeirio cyfran o'r cyllid adnoddau i'r cyfrif gwariant cyfalaf, a ddylai gynnig budd i'r diwydiant adeiladu yn yr ardaloedd hyn.

Ceir nifer o resymau dros ymddangosiad y rhaniad hwn rhwng y gogledd a'r de. Y cyntaf yw'r rhagolygon mwy cyfyngedig ar gyfer gwariant cyhoeddus yn y dyfodol. Er y disgwylir i'r dirywiad mewn gweithgarwch tai cyhoeddus fod yn gymharol debyg yn gyffredinol, gydag un neu ddau eithriad, mae'r proffil ar gyfer y sector cyhoeddus heb fod yn ymwneud gyda thai yn wahanol iawn. Gwelwyd yr allbwn yn y sector hwn yn cyrraedd uchafswm hanesyddol newydd yn 2010 ac er 2007, mae wedi tyfu dros 72% mewn termau real, ac yn cael ei arwain gan waith dan raglen BSF yn bennaf. Nid oedd Cymru yn rhan o raglen BSF, felly mae wedi gweld twf llawer mwy araf mewn allbwn cyhoeddus heb fod yn ymwneud gyda thai rhwng 2007 a 2010, ac amcangyfrifir ei fod oddeutu 6% mewn termau real. Felly, mae gan y sector lawer yn llai o le i syrthio yng Nghymru yn ystod y cyfnod rhagamcanu.

Yn ail, mae prosiectau seilwaith mawr yn tueddu i fod yn Ne Ddwyrain Lloegr ar hyn o bryd. Mae gweithgarwch seilwaith yn y DU wedi cyrraedd uchafswm hanesyddol, gan ragori ar ei uchafbwynt blaenorol ym 1993 pan adeiladwyd Twnnel y Sianel. Mae'r lefel weithgarwch hon yn cael ei hysgogi gan brosiectau yn Ne Ddwyrain Lloegr yn bennaf - Crossrail, Thameslink, ehangu M25 a phorthladd London Gateway i enwi rhai. Nid yw hyn yn golygu nad oes prosiectau yn cael eu cynnal mewn mannau eraill, mae yna, ond maent yn tueddu i fod yn rhai llai o faint. Mae perfformiad cymharol wan y sector seilwaith yng Nghymru o ganlyniad i ddiffyg prosiectau seilwaith mawr ar y cyfan, o leiaf yn y tymor byr. Erbyn 2015, gallai gwaith i adeiladu gorsaf niwclear newydd fod wedi cychwyn ar safle yn Ynys Môn, a byddai hyn yn dechrau rhoi hwb i allbwn y sector.


Yn drydydd, mae'r twf yn y sector masnachol yn debygol o fod yn gryfach yn ne ddwyrain Lloegr nag y mae mewn unrhyw ran arall o Loegr. Mae'r farchnad swyddfeydd eisoes wedi bod yn cryfhau yn Llundain ac ar hyd coridor M4/ Dyffryn Tafwys, ac mae materion sy'n ymwneud gyda chapasiti gormodol yn parhau i fod yn broblem ar draws nifer o ganolfannau rhanbarthol. Yn ogystal, mae rhanbarthau gogledd Lloegr yn cynnwys nifer o ddatblygiadau manwerthu a hamdden y maent wedi cael eu rhoi o'r neilltu, ac y mae'n anodd gweld ysgogiad economaidd i'w hailgychwyn, o leiaf yn y tymor byr.

Rhagwelir y bydd y twf cryfaf mewn cyflogaeth yn digwydd yng Nghymru, er gwaethaf y ffaith mai dim ond twf cymedrol mewn allbwn a welir yno. Mae hyn oherwydd y bydd ei lefelau cyflogaeth yn adfer o sail is na gweddill y DU, bydd yn cael budd twf allbwn cymharol gadarn yn 2011 a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar gyflogaeth yn 2012, ac mae rhan fwyaf y twf yn digwydd yn y sectorau trwsio a chynnal a chadw, y maent yn fwy llafurddwys. Nid yw'n peri syndod i weld ychwaith bod twf cyflogaeth yn gryfach na'r cyfartaledd ar gyfer y DU yn Ne Ddwyrain Lloegr, Llundain Fwyaf a Dwyrain Lloegr.

Mae twf cymharol gryf o ran cyflogaeth, ynghyd ag all-lif net uchel, yn rhoi gofyniad recriwtio blynyddol mawr i Gymru, sef 4,280 y flwyddyn ar gyfartaledd dros y bum mlynedd tan 2016. Mae hyn yn cynrychioli 4.1% o'r gyflogaeth sylfaenol ragamcanol yn 2012, sy'n ganran llawer yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer y DU, sef 1.9%. Mae Llundain yn cynnwys y gyfradd isaf, sef 0.5%, er gwaethaf y ffaith ei bod yn cynrychioli'r farchnad adeiladu fwyaf o ran allbwn a chyflogaeth.


Rhagwelir y bydd y
twf cryfaf mewn
cyflogaeth
yn digwydd yng Nghymru,
er gwaethaf y ffaith mai dim
ond twf cymedrol mewn
allbwn a welir yno.

**Twf cyfartalog blynyddol mewn allbwn yn ôl cenedl/rhanbarth, 2012-2016**




Ffynhonnell: CSN, Experian
cyf Esbonio CSN, Adran 5.3, Nodyn 2

**Gofyniad recriwtio blynyddol (ARR) yn ôl cenedl/rhanbarth, 2012-2016**




Ffynhonnell: CSN, Experian

YYH



Mae twf cymharol
gryf o ran cyflogaeth,
ynghyd ag all-lif net uchel,
yn rhoi gofyniad recriwtio
blynyddol mawr i Gymru,
sef 4,280 y flwyddyn
ar gyfartaledd dros y bum
mlynedd tan 2016.

# 5. Esbonio CSN

## Mae'r atodiad hwn yn darparu manylion ac eglurhad pellach am rai o'r pwyntiau a wneir yn yr adroddiad.

Mae Adran 5.1 yn cynnig trosolwg o'r dulliau sylfaenol a ddefnyddir gan CSN, trwy weithio mewn partneriaeth gydag Experian, i greu y gyfres o adroddiadau ar lefel y DU, ar lefel genedlaethol ac ar lefel ranbarthol.


Mae Adran 5.2 yn darparu geirfa er mwyn egluro rhai o'r termau a ddefnyddir yn yr adroddiadau, ac mae adran 5.3 yn cynnwys rhai nodiadau pellach y maent yn ymwneud gyda'r ffynonellau data a ddefnyddir ar gyfer y siartiau a'r tablau amrywiol. Yn ogystal, mae adran 5.3 yn amlinellu'r hyn a olygir gan y term ôl troed, pan drafodir y meysydd cyfrifoldeb sydd gan Gyngor Sgiliau Sector.

Mae Adran 5.4 yn esbonio'r diffiniadau o sectorau a ddefnyddir yn yr adroddiad, gan ddarparu enghreifftiau o'r hyn sy'n cael ei gynnwys ym mhob un.

Mae Adran 5.5. yn cynnig dadansoddiad manwl o'r 26 grŵp galwedigaethol yn unol â'r codau dosbarthiad galwedigaethol safonol (SOC) unigol sy'n cael eu cyfuno er mwyn darparu'r gofyniad cyflogaeth a recriwtio.

Yna, mae Adran 5.6 yn gorffen trwy nodi manylion am amrediad yr adroddiadau LMI, manteision bod yn aelod o CSN a'r manylion cyswllt os bydd gan bobl ddiddordeb mewn ymuno.







# 5.1 Methodoleg CSN

### Cefndir

Mae'r **Rhwydwaith Sgiliau Adeiladu (CSN)**, a lansiwyd yn 2005, yn cynrychioli newid radical o ran y ffordd y mae SgiliauAdeiladu yn casglu ac yn paratoi gwybodaeth am anghenion hyfforddi a chyflogaeth y diwydiant ar gyfer y dyfodol. Mae CITB-SgiliauAdeiladu, CIC a CITB Gogledd Iwerddon yn gweithio fel SgiliauAdeiladu, y Cyngor Sgiliau Sector ar gyfer Adeiladu, er mwyn creu Gwybodaeth gadarn am y Farchnad Lafur, a fydd yn cynnig sail er mwyn gallu cynllunio ar gyfer anghenion sgiliau yn y dyfodol a thargedu buddsoddiad.

Mae'r CSN yn gweithredu ar lefel genedlaethol a rhanbarthol. Mae'n cynnwys Grŵp Cenedlaethol, 12 grŵp Arsylwi, model rhagamcanu ar gyfer pob rhanbarth a gwlad, a Grŵp Cyfeirio Technegol. Mae grŵp Arsylwi yn gweithredu o fewn y naw rhanbarth yn Lloegr ar hyn o bryd, yn ogystal ag yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Ar hyn o bryd, mae grwpiau Arsylwi yn cyfarfod ddwy waith y flwyddyn ac maent yn cynnwys budd-ddeiliaid rhanbarthol allweddol a wahoddwyd o'r diwydiant, o'r Llywodraeth, o fyd addysg ac o Gynghorau Sgiliau Sector (CSSau) eraill, ac maent oll yn cyfrannu gwybodaeth am y diwydiant lleol a safbwyntiau ynghylch hyfforddiant, sgiliau, recriwtio, cymwysterau a pholisi. Mae'r Grŵp Cenedlaethol yn cynnwys cynrychiolwyr o'r diwydiant, y Llywodraeth, byd addysg a CSSau eraill hefyd. Mae'r Grŵp hwn yn cyfarfod unwaith y flwyddyn, gan nodi'r sefyllfa genedlaethol, a chan ffurfio cefnlen ar gyfer y grwpiau Arsylwi i bob pwrpas.

Wrth wraidd CSN, ceir nifer o fodelau rhagamcanu, y maent yn creu rhagamcanion ynghylch gofynion cyflogaeth o fewn y diwydiant ar gyfer amrediad o grwpiau galwedigaethol. Caiff y modelau eu cynllunio a'u rheoli gan Experian dan ddilysrwydd ac arweiniad annibynnol y Grŵp Cyfeirio Technegol, sy'n cynnwys ystadegwyr ac arbenigwyr ym maes modelu.

Rhagwelir y bydd y modelau yn esblygu gydag amser wrth i waith ymchwil newydd gael ei gyhoeddi ac wrth i dechnegau modelu wella. Dim ond ar ôl ymgynghori gyda'r Grŵp Cyfeirio Technegol y caiff newidiadau eu gwneud i'r model yn y dyfodol.

### Ymagwedd model

Mae ymagwedd model yn dibynnu ar gyfuniad o waith ymchwil sylfaenol a safbwyntiau gan CSN er mwyn ei hwyluso. Defnyddir data cenedlaethol fel sail y tybiaethau sy'n ymestyn y modelau, a fydd yn cael eu haddasu wedyn gyda chymorth y grwpiau Arsylwi a'r Grŵp Cenedlaethol. Mae gan bob rhanbarth yn Lloegr, Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon fodel ar wahân (er bod yr holl fodelau yn gydberthynol o ganlyniad i symudiadau llafur) ac yn ogystal, ceir un model cenedlaethol sy'n gweithredu fel cyfyngiad ar y modelau unigol ac sy'n galluogi'r defnydd gorau i gael ei wneud o'r data mwyaf cadarn (sydd ar gael ar y lefel genedlaethol). Mae'r modelau yn rhagamcanu'r galw am weithwyr medrus, a'u cyflenwad, ar wahân. Mae'r gwahaniaeth rhwng y galw a'r cyflenwad yn creu'r gofyniad cyflogaeth.

Mae lefelau **cyfanswm y gyflogaeth** sy'n cael eu rhagamcanu yn deillio o ddisgwyliadau ynghylch allbwn a chynhyrchiant adeiladu. Yn y bôn, caiff hyn ei seilio ar y cwestiwn 'Faint o bobl y bydd eu hangen er mwyn creu'r allbwn a ragamcanwyd, o ystyried y tybiaethau a wnaethpwyd ynghylch cynhyrchiant?'.

Mae'r **gofyniad recriwtio blynyddol (ARR)** yn ofyniad gros sy'nystyried llif y gweithlu i mewn ac allan o adeiladu, o ganlyniad i ffactorau megis symudiadau rhwng diwydiannau, mudo, salwch ac ymddeol. Fodd bynnag, nid yw'r llif hwn yn cynnwys symudiadau i'r diwydiant o hyfforddiant, er bod data cadarn ynghylch y ddarpariaeth hyfforddiant yn cael ei ddatblygu gan SgiliauAdeiladu mewn partneriaeth gydag asiantaethau cyllido cyhoeddus, Addysg Bellach, Addysg Uwch a chynrychiolwyr cyflogwyr. Felly, mae'r gofyniad recriwtio blynyddol yn cynnig syniad ynghylch nifer y cyflogeion newydd y byddai angen eu recriwtio i faes adeiladu bob blwyddyn, er mwyn gwireddu'r allbwn sy'n cael ei ragamcanu.

Caiff y galw ei seilio ar ganlyniadau grwpiau trafod sy'n cynnwys arbenigwyr o'r diwydiant, darlun o allbwn adeiladu a set o fodelau integredig sy'n ymwneud gyda pherfformiad economaidd rhanbarthol a chenedlaethol ehangach. Mae'r modelau yn ddynamig ac yn adlewyrchu'r hinsawdd economaidd gyffredinol yn y DU ar unrhyw adeg. Er mwyn creu'r galw am lafur, mae'r modelau yn defnyddio set o ystadegau penodol ar gyfer pob prif fath o waith, y maent yn pennu'r gyflogaeth, fesul crefft, sy'n angenrheidiol er mwyn creu'r lefelau a ragwelir o ran allbwn adeiladu. Caiff y cyflenwad llafur ar gyfer pob math o grefft neu broffesiwn ei seilio ar gyflenwad y flwyddyn flaenorol (y stoc cyflogaeth cyfan gwbl), wedi'i gyfuno gyda llif i mewn ac allan o'r farchnad lafur.

Mae'r gollyngiadau (all-lifau) allweddol y bydd angen eu hystyried, fel a ganlyn:


- trosglwyddiadau i ddiwydiannau eraill
- allfudo rhyngwladol/domestig
- ymddeoliadau parhaol (gan gynnwys y rhai y maent yn dioddef salwch parhaol)
- all-lif i ddyletswyddau cartref a'r rhai y maent yn dioddef salwch dros dro.

Mae'n debygol mai trosglwyddo i ddiwydiannau eraill fydd y prif reswm dros all-lif.

Mae llif i mewn i'r farchnad lafur yn cynnwys:

- trosglwyddiadau i mewn o ddiwydiannau eraill
- mewnfudo rhyngwladol/domestig
- mewnlif o ddyletswyddau cartref a'r rhai y maent wedi bod yn dioddef salwch dros dro.

Mae'n debygol mai trosglwyddo o ddiwydiannau eraill fydd y llif mwyaf sylweddol. Rhoddir crynodeb o'r model yn y siart llif.



# 5.2 Geirfa

- **Arbenigwyr amlen adeilad** - unrhyw grefft sy'n ymwneud gyda chladin allanol yr adeilad ac eithrio bricwaith, e.e. llenfuriau.
- **Galw** - caiff y galw ei gyfrifo trwy ddefnyddio data ynghylch allbwn adeiladu gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) ac Adran Gyllid a Phersonél Gogledd Iwerddon (DFP), ynghyd â data ynghylch swyddi gwag o'r Arolwg Sgiliau Cyflogwyr Cenedlaethol, gan yr Adran Addysg a Sgiliau. Caiff y setiau data hyn eu trosi yn ofynion llafur yn ôl crefft trwy ddefnyddio cyfres o **gyfernodau** er mwyn creu'r galw am lafur sy'n ymwneud gyda'r lefelau allbwn a ragamcanir.
- **CMC** - Cynnyrch Mewnwladol Crynswth - gwerth cyfan gwbl yr holl wasanaethau a'r nwyddau terfynol a gynhyrchir, ar y farchnad. Mesur o incwm cenedlaethol. CMC=**GYC** a threthi ar gynhyrchion yn llai cymorthdaliadau ar gynhyrchion.
- **GYC** - Gwerth Ychwanegol Crynswth - cyfanswm yr allbwn yn llai gwerth y mewnbynnau a ddefnyddir yn y broses gynhyrchu. Mae GYC yn mesur cyfraniad yr economi fel gwahaniaeth rhwng allbwn gros ac allbynnau canolradd.
- **Cyfernodau** - Er mwyn creu'r galw am lafur, mae'r model yn defnyddio set o ystadegau penodol ar gyfer pob prif fath o waith er mwyn pennu cyflogaeth, yn ôl crefft neu broffesiwn, ar sail y cyflenwad yn ystod y blynyddoedd blaenorol. Yn ei hanfod, hwn yw nifer y gweithwyr ym mhob galwedigaeth/crefft er mwyn cynhyrchu allbwn o £1m ar draws pob is-sector.
- **LFS (Arolwg o'r Llafurlu)** - arolwg a anfonir i sampl o gartrefi yn y DU, sy'n casglu gwybodaeth am gyflogaeth, diweithdra, llif rhwng sectorau a hyfforddiant, ac mae oddeutu 53,000 o gartrefi yn ymateb i hwn bob chwarter (>100,000 o bobl).
- **LMI (Gwybodaeth am y Farchnad Lafur)** - data sy'n feintiol (rhifol) neu'n ansoddol (dirnadaeth a thybiaethau) ynghylch gweithwyr, cyflogwyr, cyflogau, amodau gwaith, ac ati.
- **Macro-economeg** - astudio economi ar lefel genedlaethol, gan gynnwys cyfansymiau cyflogaeth, lefelau buddsoddi, mewnforion, allforion, cynhyrchu a defnyddio.
- **Nec** - heb ei ddosbarthu mewn man arall, a ddefnyddir fel cyfeirnod mewn data LFS.
- **ONS** - Swyddfa Ystadegau Gwladol - ystadegau gwladol am yr economi, poblogaeth a chymdeithas ar lefel y DU ac ar lefel leol.
- **Allbwn** - gwerth cyfan gwbl yr holl nwyddau a'r gwasanaethau a gynhyrchir mewn economi.
- **Cynhyrchiant** - allbwn fesul cyflogai.
- **Codau SIC** - Codau Dosbarthiad Diwydiannol Safonol - o Ddosbarthiad Diwydiannol Safonol y DU o Weithgareddau Economaidd, a gynhyrchir gan **ONS**.
- **Codau SOC** - Codau Dosbarthiad Galwedigaethol Safonol.
- **Cyflenwad** - cyfanswm y stoc cyflogaeth mewn cyfnod a'r llif i mewn ac allan o'r farchnad lafur. Fel arfer, caiff cyflenwad ei gyfrifo gan ddefnyddio data **LFS**.





# 5.3 Nodiadau ac olion troed

### Nodiadau

1 Ac eithrio Gogledd Iwerddon, darparir data am allbwn y rhanbarthau yn Lloegr, Cymru a'r Alban gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) ar sail prisiau cyfredol. Felly, defnyddiwyd datchwyddwyr cenedlaethol a luniwyd gan ONS er mwyn datchwyddo i sail pris cyson 2005, h.y. gwaredwyd effeithiau chwyddiant.

2 Mae cyfradd gyfartalog genedlaethol y twf o ran allbwn yn gyfradd twf cyfartalog cyfansawdd, h.y. y raddfa y byddai'r allbwn yn tyfu bob blwyddyn os byddai'n cynyddu'n raddol flwyddyn ar ôl blwyddyn yn ystod y cyfnod rhagamcanu,

3 Dim ond cydrannau dethol o werth ychwanegol crynswth (GYC) a ddangosir yn y tabl hwn, felly nid ydynt yn nodi swm y cyfanswm.

4 Ar gyfer archebion adeiladu newydd, gwneir cymhariaeth gyda Phrydain, yn hytrach na'r DU, gan na cheir cyfres ddata ynghylch archebion ar gyfer Gogledd Iwerddon.

5 Caiff niferoedd cyflogaeth eu talgrynnu i'r 10 agosaf.

6 Mae'r tablau yn cynnwys data sy'n ymwneud gyda phlymwyr a thrydanwyr. Fel rhan o SIC 45, mae plymwyr a thrydanwyr y maent yn gweithio ym maes contractio yn rhan annatod o'r broses adeiladu. Fodd bynnag, mae SgiliauAdeiladu yn cydnabod bod SummitSkills yn gyfrifol am y galwedigaethau hyn ar draws amrediad o godau SIC, gan gynnwys SIC 45.31 a 45.33.

### Olion Troed ar gyfer CSSau yr Amgylchedd Adeiledig

Mae SgiliauAdeiladu yn gyfrifol am SIC 45 Adeiladu a rhan o SIC 74.2 Gweithgareddau Pensaernïol a Pheirianneg ac ymgynghori technegol cysylltiedig.

Mae'r tabl yn rhoi crynodeb o'r codau SIC (2003) y maent yn cael eu cynnwys o fewn SgiliauAdeiladu:

| | Cod SIC | Disgrifiad |
|---|---|---|
| SgiliauAdeiladu | 45.1 | Paratoi safle |
| | 45.2 | Adeiladu adeiladwaith cyflawn neu rannau ohono; peirianneg sifil |
| | 45.3 | Gosodiadau adeiladu (ac eithrio 45.31 a 45.33, y maent yn cael eu cynnwys o fewn SummitSkills) |
| | 45.4 | Cwblhau adeilad |
| | 45.5 | Rhentu offer adeiladu neu ddymchwel gyda gweithredwr |
| | 74.2* | Gweithgareddau pensaernïol a pheirianneg ac ymgynghori technegol cysylltiedig |

* Mae gan AssetSkills ddiddordeb ymylol yn SIC 74.2

Yr olion troed sector ar gyfer y CSSau eraill y maent yn ymwneud gyda'r Amgylchedd Adeiledig:

### SummitSkills

**Ôl troed** – Plymio, Gwresogi, Awyru, Aerdymheru, Rheweiddio ac Electrodechnegol.

**Yn cynnwys** – Peirianneg Gwasanaethau Adeiladu.

Mae SgiliauAdeiladu yn rhannu diddordeb gyda SummitSkills yn SIC 45.31 Gosod gwifrau a ffitiadau ac SIC 45.33 Plymio. Mae SgiliauAdeiladu yn cydnabod cyfrifoldeb Summit Skills ar draws Dosbarthiadau Diwydiannol Safonol (SIC) 45.31 a 45.33, felly caiff data sy'n ymwneud gyda sector peirianneg gwasanaethau adeiladu ei gynnwys yma, yn bennaf er mwyn cynnig darlun llawn.

### AssetSkills

**Ôl troed** – Gwasanaethau Eiddo, Tai, Rheoli Cyfleusterau, Glanhau.

**Yn cynnwys** – Rheolwyr Eiddo, Tai a Thir, Syrfewyr Siartredig, Amcangyfrifwyr, Priswyr, Archwilwyr Cartrefi, Asiantau Tai ac Arwerthwyr (eiddo a chelfi), Gofalwyr, Gweithwyr Peiriannau a Gweithwyr Symudol, Glanhawyr Ffenestri, Ysgubwyr Ffordd, Glanhawyr, Gwaith Domestig, Rheolwyr Cyfleusterau.

Mae gan AssetSkills ddiddordeb ymylol yn SIC 74.2.

### Sgiliau Ynni a Chyfleustodau

**Ôl troed** - Trydan, Nwy (gan gynnwys gosodwyr nwy), Dŵr a Rheoli Gwastraff.

**Yn cynnwys** - Cynhyrchu a dosbarthu trydan; Trosglwyddo, dosbarthu a gosod a chynnal a chadw dyfeisiau nwy; Casglu, puro a dosbarthu dŵr; Casglu a phrosesu dŵr gwastraff; Rheoli Gwastraff.

# 5.4 Diffiniadau: mathau ac enghreifftiau o waith adeiladu

### Tai sector cyhoeddus - awdurdodau lleol a chymdeithasau tai, adrannau llywodraeth a threfi newydd

Cynlluniau tai, cartrefi hen bobl a darparu ffyrdd a gwasanaethau ar gyfer nwy, dŵr, trydan, carthffosydd a draeniau mewn safleoedd tai.

### Tai sector preifat

Yr holl adeiladau preifat at ddefnydd preswyl, megis tai, fflatiau a fflatiau deulawr, byngalos, bythynnod a darparu gwasanaethu ar gyfer datblygiadau newydd.

### Seilwaith - cyhoeddus a phreifat

**Dŵr**
Cronfeydd dŵr, gweithfeydd puro, argaeau, gweithfeydd dŵr, gorsafoedd pwmpio, prif gyflenwad dŵr, gwaith hydrolig ac ati.

**Carthffosydd**
Gweithfeydd gwaredu carthion, gosod carthffosydd a ffosydd agored.

**Trydan**
Gwaith peirianneg sifil ac adeiladu ar gyfer ymgymeriadau trydanol megis gorsafoedd pŵer, argaeau a gwaith arall ar gynlluniau trydan dŵr a datgomisiynu gorsafoedd pŵer niwclear, ffermydd gwynt ar y tir.

**Nwy, cyfathrebu, trafnidiaeth awyr**
Gweithfeydd nwy, prif gyflenwad nwy a storio nwy; swyddfeydd post, swyddfeydd didoli, cyfnewidfeydd ffôn, canolfannau dargyfeirio ac ati; terfynellau awyr, llwybrau glanio, siediau awyrennau, neuaddau derbyn, gosodiadau radar.

**Rheilffyrdd**
Ffordd barhaol, twnelau, pontydd, hafnau, gorsafoedd, cytiau locomotifau ac ati, signalau a systemau rheoli eraill a thrydanu rheilffyrdd ar y tir a rheilffyrdd tanddaearol.

**Harbwrs**
Yr holl waith a'r adeiladau y maent yn gysylltiedig gyda harbwrs, glanfeydd, dociau, pierau, camlesi a dyfrffyrdd, waliau môr, argloddiau ac amddiffynfeydd dŵr.

**Ffyrdd**
Ffyrdd, palmentydd, pontydd, llwybrau troed, goleuadau, twnelau, trosffyrdd, ffensys ac ati.

### Adeiladu cyhoeddus dibreswyl[1]

**Ffatrïoedd a warysau**
Ffatrïoedd, warysau, canolfannau sgiliau cyhoeddus.

**Olew, dur, glo**
Bellach wedi'i gyfyngu i waith adfer ar gyfer cyrff gweddilliol y sector cyhoeddus.

**Ysgolion, colegau, prifysgolion**
Ysgolion a cholegau gwladol (gan gynnwys colegau technegol ac athrofeydd amaethyddol); prifysgolion, gan gynnwys neuaddau preswyl, sefydliadau ymchwil ac ati.

**Iechyd**
Ysbytai, gan gynnwys ysgolion meddygol, clinigau, canolfannau lles, canolfannau hyfforddi oedolion.

**Swyddfeydd**
Swyddfeydd llywodraeth leol a chanolog, gan gynnwys neuaddau tref, swyddfeydd ar gyfer yr holl gyrff cyhoeddus, ac eithrio'r lluoedd arfog, pencadlys yr heddlu.

**Adloniant**
Theatrau, bwytai, pyllau nofio cyhoeddus, safleoedd carafannau mewn canolfannau gwyliau, gwaith ac adeiladau ar feysydd chwaraeon, stadia, caeau rasio ac ati, y mae awdurdodau lleol neu gyrff cyhoeddus eraill yn berchen arnynt.

**Garejis**
Adeiladau er mwyn storio, trwsio a chynnal a chadw cerbydau ffordd, gweithdai trafnidiaeth, depos bysiau, depos trafnidiaeth nwyddau ffyrdd a meysydd parcio.

**Siopau**
Datblygiadau siopa trefol y mae Awdurdod Lleol wedi rhoi'r contract ar eu cyfer.

**Amaethyddiaeth**
Adeiladau a gwaith mewn sefydliadau garddwriaethol sy'n cael eu hariannu gan arian cyhoeddus; draenio corstiroedd a draenio amaethyddol; clinigau milfeddygol.

**Amrywiol**
Yr holl waith nad oes modd ei gynnwys dan unrhyw bennawd arall mewn ffordd amlwg, megis gorsafoedd tân, gorsafoedd heddlu, carchardai, penydfeydd, cartrefi remand, gwaith amddiffyn sifil, gwaith ar gyfer Awdurdod Ynni Atomig y DU, depos cynghorau, amgueddfeydd, llyfrgelloedd.

### Gwaith diwydiannol preifat

Ffatrïoedd, warysau, depos cyfanwerthu, yr holl waith a'r adeiladau eraill at ddibenion cynhyrchu neu brosesu diwydiannol, purfeydd, pibellau a therfynellau olew, platfformau cynhyrchu olew gyda choesau concrid sefydlog (nid llwyfannau); gwaith dur preifat; yr holl waith er mwyn adeiladu pyllau glo newydd megis agor siafftiau, twnelu ac ati.

[1] Pan ddyfarnir contractau er mwyn adeiladu neu wella adeiladau dibreswyl a ddefnyddir er mwyn darparu gwasanaethau cyhoeddus, megis ysbytai, gan ddeiliaid contractau o'r sector preifat, a ddyfarnwyd dan Fenter Cyllid Preifat, caiff y gwaith ei ddosbarthu fel gwaith 'masnachol preifat'.



### Gwaith masnachol preifat[2]

**Ysgolion a phrifysgolion**
Ysgolion a cholegau yn y sector preifat, sy'n cael eu hariannu'n llwyr gan gronfeydd preifat.

**Iechyd**
Ysbytai, cartrefi nyrsio a chlinigau preifat.

**Swyddfeydd**
Adeiladau swyddfa, banciau.

**Adloniant**
Theatrau, neuaddau cyngerdd, sinemâu, gwestai, tafarndai, bwytai, caffis, gwersylloedd gwyliau, pyllau nofio, gwaith ac adeiladau ar feysydd chwaraeon, stadia a safleoedd chwaraeon neu hamddena eraill, hostelau ieuenctid, y maent oll mewn perchnogaeth breifat.

**Garejis**
Garejis trwsio, gorsafoedd petrol, depos bysiau, depos cludo nwyddau ac unrhyw waith neu adeiladau eraill er mwyn storio, trwsio neu gynnal a chadw cerbydau ffordd, meysydd parcio.

**Siopau**
Yr holl adeiladau er mwyn dosbarthu at ddibenion manwerthu, megis siopau, siopau adrannol, marchnadoedd manwerthu, ystafelloedd arddangos, ac ati.

**Amaethyddiaeth**
Yr holl adeiladau a gwaith ar ffermydd, sefydliadau garddwriaethol.

**Amrywiol**
Yr holl waith nad oes modd ei gynnwys dan unrhyw bennawd arall, e.e. arddangosfeydd, meysydd carafannau, eglwysi, neuaddau eglwys.

### Gwaith newydd

**Tai newydd**
Adeiladu tai, fflatiau, byngalos newydd yn unig.

**Pob math arall o waith**
Gwaith adeiladu hollol newydd a'r holl waith y mae modd cyfeirio ato fel gwaith gwella, adnewyddu neu ailwampio, ac y mae'n ychwanegu at werth yr eiddo.[3]

### Trwsio a chynnal a chadw

**Tai**
Unrhyw waith i drawsnewid neu ddarparu estyniad i unrhyw annedd sy'n bodoli eisoes, a'r holl waith arall megis gwaith gwella, adnewyddu, ailwampio, gwaith cynnal a chadw wedi'i gynllunio ac unrhyw fath arall o wariant ar waith trwsio neu gynnal a chadw.

**Pob sector arall**
Gwaith trwsio a chynnal a chadw o bob math, gan gynnwys gwaith cynnal a chadw wedi'i gynllunio a gwaith cynnal a chadw cytundebol.[4]

[2] Pan ddyfarnir contractau er mwyn adeiladu neu wella adeiladau dibreswyl a ddefnyddir er mwyn darparu gwasanaethau cyhoeddus, megis ysbytai, gan ddeiliaid contractau o'r sector preifat, a ddyfarnwyd dan Fenter Cyllid Preifat, caiff y gwaith ei ddosbarthu fel gwaith 'masnachol preifat'.

[3] Efallai na fydd contractwyr sy'n adrodd am waith bob amser yn ymwybodol o'r gwahaniaeth rhwng gwaith gwella neu adnewyddu a gwaith trwsio a chynnal a chadw yn y sectorau dibreswyl.

[4] Ac eithrio lle y nodir, caiff cynlluniau datblygiad cymysg eu dosbarthu i ba sector bynnag sy'n darparu mwyafrif (h.y. dros 50%) y cyllid.

# 5.5 Grwpiau galwedigaethol

**Grŵp galwedigaethol**

Disgrifiad, cyfeirnod SOC.

**Rheolwyr uwch, gweithredol a phrosesau busnes**

Cyfarwyddwyr a phrif weithredwyr sefydliadau mawr, 1112
Swyddogion uwch mewn llywodraeth leol, 1113
Rheolwyr ariannol ac ysgrifenyddion siartredig, 1131
Rheolwyr gwerthu a marchnata, 1132
Rheolwyr prynu, 1133
Rheolwyr hysbysebu a chysylltiadau cyhoeddus, 1134
Rheolwyr personél, hyfforddiant a chysylltiadau Diwydiannol, 1135
Rheolwyr swyddfa, 1152
Swyddogion gweithredol y gwasanaeth sifil, 4111
Rheolwyr eiddo, tai a thir, 1231
Rheolwyr technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, 1136
Rheolwyr ymchwil a datblygu, 1137
Rheolwyr gofal cwsmeriaid, 1142
Rheolwyr storio a warysau, 1162
Rheolwyr diogelwch, 1174
Rheolwyr cadwraeth a'r amgylchedd naturiol, 1212
Rheolwyr a pherchnogion mewn gwasanaethau eraill nec*, 1239

**Rheolwyr adeiladu**

Rheolwyr cynhyrchu, gwaith a chynnal a chadw, 1121
Rheolwyr adeiladu, 1122
Rheolwyr sicrhau ansawdd, 1141
Rheolwyr trafnidiaeth a dosbarthu, 1161
Rheolwyr ailgylchu a gwaredu gwastraff, 1235
Rheolwyr cloddio ac ynni, 1123
Glanweithwyr galwedigaethol a swyddogion diogelwch (IaD), 3567
Swyddogion cadwraeth a diogelu'r amgylchedd, 3551

**Staff proffesiynol, technegol, TG a staff swyddfa eraill nad ydynt yn staff adeiladu (heb gynnwys rheolwyr)**

Technegwyr gweithrediadau TG, 3131
Technegwyr cymorth defnyddwyr TG, 3132
Amcangyfrifwyr, priswyr ac aseswyr, 3531
Cynghorwyr/dadansoddwyr buddsoddi a chyllid, 3534
Arbenigwyr treth, 3535
Technegwyr cyfrifyddu ac ariannol, 3537
Hyfforddwyr Diwydiannol a Galwedigaethol, 3563
Gweithwyr proffesiynol busnes a chyswllt cysylltiedig nec*, 3539
Gweithwyr proffesiynol cyswllt cyfreithiol, 3520
Archwilwyr ffatrïoedd, cyfleustodau a safonau masnach, 3565
Gweithwyr proffesiynol meddalwedd, 2132
Gweithwyr proffesiynol cynllunio a strategaeth TG, 2131
Asiantau tai, arwerthwyr, 3544
Cyfreithwyr, barnwyr a chrwneriaid, 2411
Gweithwyr cyfreithiol proffesiynol nec*, 2419
Cyfrifwyr siartredig ac ardystiedig, 2421
Cyfrifwyr rheoli, 2422
Ymgynghorwyr rheoli, actiwarïaid, economegwyr ac ystadegwyr, 2423
Derbynyddion, 4216
Teipyddion, 4217
Cynrychiolwyr gwerthu, 3542
Swyddogion a chynorthwywyr gweinyddol y Gwasanaeth Sifil, 4112
Swyddogion a chynorthwywyr clerigol llywodraeth leol, 4113
Clercod cyfrifon a chyflogau, llyfrifwyr, clercod ariannol eraill, 4122
Clercod/cynorthwywyr ffeilio a chofnodion eraill, 4131
Clercod rheoli stoc, 4133
Clercod/cynorthwywyr cronfeydd data, 4136
Teleffonyddion, 4141
Gweithwyr cyfathrebu, 4142
Clercod/cynorthwywyr swyddfa cyffredinol, 4150
Cynorthwywyr personél ac ysgrifenyddion eraill, 4215
Cynorthwywyr gwerthu a manwerthu, 7111
Swyddogion gwerthu dros y ffôn, 7113
Prynwyr a swyddogion prynu (50%), 3541
Gweithwyr proffesiynol cyswllt marchnata, 3543
Swyddogion cysylltiadau diwydiannol a phersonél, 3562
Rheolwyr credyd, 4121
Cyfwelwyr ymchwil y farchnad, 4137
Ysgrifenyddion cwmni (heb gynnwys ysgrifenyddion siartredig cymwys), 4214
Galwedigaethau sy'n gysylltiedig gyda gwerthu nec*, 7129
Asiantau/gweithwyr mewn canolfannau galwadau, 7211
Galwedigaethau gofal cwsmeriaid, 7212
Galwedigaethau swyddfa elfennol nec*, 9219

**Crefftau pren a gwaith gosod mewnol**

Seiri ac asiedyddion, 5315
Gwneuthurwyr patrymau, 5493
Gweithwyr peiriannau pren a phapur, 8121
Gwneuthurwyr dodrefn, seiri coed crefft eraill, 5492
Llafurwyr yng nghrefft adeiladu a gwaith coed (9%), 9121
Crefftau adeiladu nec* (25%), 5319





**Bricwyr**

Bricwyr, seiri meini, 5312

**Arbenigwyr amlen adeilad**

Crefftau adeiladu nec* (50%), 5319
Llafurwyr yng nghrefft adeiladu a gwaith coed (5%), 9121

**Peintwyr ac addurnwyr**

Peintwyr ac addurnwyr, 5323
Crefftau adeiladu nec* (5%), 5319

**Plastrwyr a gosodwyr paneli mewnol**

Plastrwyr, 5321

**Towyr**

Towyr a theilswyr to, 5313

**Llorwyr**

Llorwyr a theilswyr waliau, 5322

**Gwydrwyr**

Gwydrwyr, gwneuthurwyr a gosodwyr ffenestri, 5316
Crefftau adeiladu nec* (5%), 5319

**Gweithwyr adeiladu arbenigol nec***

Gweithwyr adeiladu nec* (80%), 8149
Crefftau adeiladu nec* (5%), 5319
Galwedigaethau prosesau glanhau diwydiannol, 9132

**Sgaffaldwyr**

Sgaffaldwyr, gosodwyr llwyfannau, rigwyr, 8141

**Gweithwyr cyfarpar**

Gyrwyr craeniau, 8221
Gweithwyr cyfarpar a pheiriannau nec*, 8129
Gweithwyr trafnidiaeth nec*, 8219
Gyrwyr wagenni fforch godi, 8222
Gweithwyr a gyrwyr peiriannau symudol nec*, 8229
Gyrwyr peiriannau amaethyddol, 8223

**Mecanyddion/gosodwyr cyfarpar**

Gosodwyr cynnal a chadw a chynhyrchu gwaith metel, 5223
Mecanyddion cerbydau modur, peirianwyr modurol, 5231
Llafurwyr mewn gwaith cyfarpar a phroses nec*, 9139
Gwneuthurwyr offer, gosodwyr offer a marcwyr, 5222
Gweithwyr adeiladu a thrwsio corff cerbydau, 5232
Trydanwyr modurol, 5233
Gweithwyr chwistrell-baentio cerbydau, 5234
Gosodwyr teiars, disbyddwyr a ffenestri blaen, 8135



**Gosodwyr dur/strwythurol**

Gosodwyr dur, 5311
Crefftau weldio, 5215
Gweithwyr llenfetel, 5213
Gweithwyr platiau metel, adeiladwyr llongau a rhybedwyr, 5214
Crefftau adeiladu nec* (5%), 5319
Gofaint a gweithwyr gefail, 5211
Mowldwyr, cynhyrchwyr craidd, gweithwyr deigastio, 5212
Gosodwyr peiriannu metel a hogwyr, 5221

**Llafurwyr nec***

Llafurwyr yn y crefftau adeiladu a gwaith coed (80%), 9121

**Gwaith gosod a chrefftau trydanol**

Trydanwyr, gosodwyr trydanol, 5241
Peirianwyr trydanol/electronig nec*, 5249
Peirianwyr telathrebu, 5242
Gweithwyr trwsio llinellau ac uniadwyr ceblau, 5243
Peirianwyr teledu, fideo a sain, 5244
Peirianwyr, gosodwyr a gweithwyr cynnal a chadw cyfrifiaduron, 5245

**Crefftau plymio a gwresogi, awyru, ac aerdymheru**

Plymwyr a chrefftau HVAC, 5314
Gosodwyr pibellau, 5216
Llafurwyr mewn crefftau adeiladu a gwaith coed (6%), 9121
Crefftau adeiladu nec* (5%), 5319

**Logisteg**

Gyrwyr cerbydau nwyddau trwm, 8211
Gyrwyr faniau, 8212
Gweithwyr pacio, potelu, llenwi tuniau, llanwyr, 9134
Galwedigaethau storio a thrin nwyddau eraill nec*, 9149
Prynwyr a swyddogion prynu (50%), 3541
Clercod trafnidiaeth a dosbarthu, 4134
Swyddogion diogelwch a galwedigaethau cysylltiedig, 9241

**Gweithwyr peirianneg sifil nec***

Gweithwyr adeiladu ffyrdd, 8142
Gweithwyr adeiladu a chynnal a chadw rheilffyrdd, 8143
Gweithwyr chwarela a gweithwyr cysylltiedig, 8123
Gweithwyr adeiladu nec* (20%), 8149
Llafurwyr mewn crefftau adeiladu eraill nec*, 9129

**Gweithwyr nad ydynt yn weithwyr adeiladu**

Gweithwyr proses creu a thrin metel, 8117
Gweithwyr proses nec*, 8119
Gweithwyr peiriannau gwaith metel, 8125
Gweithwyr gweithfeydd dŵr a charthion, 8126
Cyfosodwyr (cerbydau a nwyddau metel), 8132
Archwilwyr a swyddogion profi cyson, 8133
Cyfosodwyr a gweithwyr cyson nec*, 8139
Dadlwythwyr, docwyr a thaflwyr, 9141
Galwedigaethau crefft llaw nec*, 5499
Galwedigaethau diogelwch elfennol nec*, 9249
Glanhawyr, gwaith domestig, 9233
Ysgubwyr ffordd, 9232
Garddwyr a thirmyn, 5113
Gofalwyr, 6232

**Peirianwyr sifil**

Peirianwyr sifil, 2121

**Staff technegol a gweithwyr adeiladu proffesiynol eraill**

Peirianwyr mecanyddol, 2122
Peirianwyr trydanol, 2123
Peirianwyr cemegol, 2125
Peirianwyr dylunio a datblygu, 2126
Peirianwyr cynhyrchu a phroses, 2127
Peirianwyr cynllunio a rheoli ansawdd, 2128
Gweithwyr peirianneg proffesiynol nec*, 2129
Technegwyr trydanol/electronig, 3112
Technegwyr peirianneg, 3113
Technegwyr adeiladu a pheirianneg sifil, 3114
Technegwyr gwyddoniaeth a pheirianneg nec*, 3119
Technolegwyr pensaernïol a thechnegwyr cynllunio tref, 3121
Drafftsmyn, 3122
Technegwyr sicrhau ansawdd, 3115
Cynllunwyr tref, 2432
Peirianwyr electronig, 2124
Archwilwyr adeiladau, 3123
Ymchwilwyr gwyddonol, 2321

**Penseiri**

Penseiri, 2431

**Syrfewyr**

Syrfewyr meintiau, 2433
Syrfewyr siartredig (nid syrfewyr Meintiau), 2434





# 5.6 Gwefan a manylion cyswllt CSN

**Gwefan CSN – http://www.cskills.org/csn**

Mae gwefan CSN yn cyflawni rôl **porth cyhoeddus** i bobl sy'n dymuno troi at amrediad yr adroddiadau **Gwybodaeth am y Farchnad Lafur (LFI)** a'r **deunydd ymchwil** a gynhyrchir yn rheolaidd gan CSN.

Mae modd lawrlwytho'r prif adroddiad ar gyfer y DU, ynghyd â'r deuddeg adroddiad LMI (un ar gyfer Cymru, Gogledd Iwerddon, yr Alban a'r naw rhanbarth yn Lloegr) o'r wefan, ac mae adroddiadau ymchwil megis '2020Vision' a 'Closer look at Greater London' ar gael hefyd.

Mae cael y cyfle i droi at yr amrediad hon o wybodaeth am y farchnad lafur a dirnadaeth am y tueddiadau yn galluogi'r diwydiant, llywodraeth, asiantaethau rhanbarthol a budd-ddeiliaid allweddol i:

- amlygu'r sgiliau cysylltiedig a phenodol y bydd eu hangen fesul blwyddyn
- nodi'r sectorau y maent yn debygol o gyflawni rôl yr ysgogwyr cryfaf o ran twf mewn allbwn ym mhob rhanbarth a chenedl ddatganoledig
- olrhain yr economi macro
- deall sut y mae digwyddiadau economaidd yn cael effaith ar berfformiad economaidd cenhedloedd datganoledig a pherfformiad economaidd rhanbarthol
- amlygu tueddiadau ar draws y diwydiant megis y newidiadau cenedlaethol a rhanbarthol o ran y galw
- cynllunio ymlaen llaw a rhoi sylw i anghenion sgiliau gweithlu y mae wedi bod yn weithlu symudol yn draddodiadol
- deall lefelau y newydd-ddyfodiaid cymwys y mae eu hangen ar gyfer y gweithlu.

Yn ogystal, mae'r wefan yn cynnwys gwybodaeth bellach am:

- sut y mae CSN yn gweithio
- ymagwedd Model CSN
- sut y mae modd defnyddio'r Model er mwyn ystyried sefyllfaoedd
- gwybodaeth er mwyn gallu cysylltu gyda thîm CSN
- y cyfle i droi at waith ymchwil cysylltiedig SgiliauAdeiladu
- manylion ar gyfer y rhai y mae ganddynt ddiddordeb mewn bod yn aelodau o'r rhwydwaith.

Mae modd gweld gwefan CSN trwy droi at:
**http://www.cskills.org/csn**

**Safle i aelodau CSN**

Tra bod safle cyhoeddus Gwefan CSN yn cynnig porth er mwyn troi at adroddiadau ymchwil ac LMI wedi'u cwblhau, mae bod yn aelod o CSN yn cynnig manteision pellach.

Fel aelod o CSN, byddwch yn cael eich cysylltu gydag un o'r grwpiau Arsylwi, y maent yn cyflawni rôl hanfodol wrth roi adborth am arsylwadau, gwybodaeth a dirnadaeth am yr hyn sy'n digwydd mewn gwirionedd ym mhob rhanbarth a chenedl yn y DU. Defnyddir yr adborth hwn er mwyn mireinio'r tybiaethau a'r data sy'n cael eu cynnwys yn y rhaglen rhagamcanu, megis:

- manylion prosiectau penodol
- y galw o fewn mathau amrywiol o waith neu sectorau cyflenwad llafur
- mewnlif ac all-lif ar draws y rhanbarthau a'r cenhedloedd datganoledig.

Felly, mae modd i aelodau CSN:

- droi at ragamcanion yn gynnar
- cael y cyfle i ddylanwadu ar y data a chyfrannu ato
- gofyn am sefyllfaoedd y byddai modd iddynt ateb cwestiynau megis "Beth fyddai'n digwydd os...' gan ddefnyddio'r model.

Trwy gyfrwng safle'r Aelodau ar wefan CSN, mae modd i aelodau:

- droi at ddeunydd cysylltiedig grwpiau arsylwi megis dyddiadau cyfarfodydd, agendâu, cyflwyniadau a nodiadau
- troi at adroddiadau LMI is-ranbarthol
- lawrlwytho deunydd ymchwil ychwanegol
- gwneud sylwadau/rhoi adborth i Dîm CSN.

Wrth i'r grwpiau Arsylwi amlygu'r materion gwirioneddol y mae'r diwydiant yn eu hwynebu yn y DU, gallwn gynllunio ein hymateb i anghenion sgiliau mewn ffordd fwy effeithlon ac effeithiol. Os hoffech gyfrannu'ch arsylwadau, eich gwybodaeth a'ch dirnadaeth am y diwydiant i'r broses hon, a bod yn aelod o CSN, byddem wrth ein bodd i glywed gennych.

**Manylion cyswllt**

Am wybodaeth bellach am wefan CSN, os oes gennych ymholiadau am waith CSN, neu os hoffech gofrestru'ch diddordeb mewn bod yn aelod o CSN, a fyddech gystal â chysylltu gyda ni: **csn@cskills.org**